| (Cyngor Sir Ynys Mon) ynglyn a sut ellir addasu'r teclyn AEC corfforaethol (os oes angen gwneud hynny)/ cymhwyso'r teclyn AEC i'r camau allweddol o baratoi'r CDLl ar y Cyd, e.e. adnabod opsiynau twf a dosbarthiad, creu polisiau strategol | | | |
| Sefydlu'r Panel AEC i gynorthwyo'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i wneud AEC o'r CDLl ar y Cyd ar adegau allweddol. | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 2011 | Y Panel yn cwrdd ar adegau perthnasol rhwng 2011 a 2014/5 |

**14) PENDERFYNU**

| |
|---|
| |

**ATODIAD 1**

# Cytundeb Cyflawni Drafft
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

DRAFFT

# ATODIAD 1

Tudalen wag

# ATODIAD 1

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1: Cyd-destun** | 1 |
| Cyflwyniad | 1 |
| Beth yw Cynllun Datblygu Lleol | 3 |
| Beth yw Cytundeb Cyflawni | 4 |
| Paratoi'r Cytundeb Cyflawni | 5 |
| **ADRAN A: CYNLLUN RHEOLI AMSERLEN PARATOI'R CDLL AR Y CYD** | 6 |
| **RHAN 2: Cwmpas y CDLl ar y Cyd a'r dylanwadau arno** | 6 |
| Cwmpas y CDLl ar y Cyd | 6 |
| Fformat tebygol y CDLl ar y Cyd | 9 |
| Canllawiau Cynllunio Atodol | 10 |
| Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Asesiad Priodol | 10 |
| Cysylltiadau a pholisiau a strategaethau allweddol cenedlaethol, a rhanbarthol a rhai lleol | 11 |
| Cynlluniau a strategaethau eraill ar gyfer Mon a Gwynedd | 11 |
| Profion Cadernid | 13 |
| **RHAN 3: Yr Adnoddau a'r amserlen** | 14 |
| Yr Adnoddau - staff | 14 |
| Yr Adnoddau - cyllid | 17 |
| Yr amserlen | 17 |
| **RHAN 4: Rheoli risg** | 19 |
| Gwneud penderfyniadau | 19 |
| Ffactorau a all ddylanwadu ar y broses | 19 |
| **RHAN 5: Monitro ac Adolygu** | 20 |
| Monitro ac adolygu yn erbyn y CC | 20 |
| Adroddiadau Monitro Blynyddol | 20 |
| Adolygu'r CDLl ar y Cyd | 21 |
| **ADRAN B – CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU** | 22 |
| **RHAN 6 – Cwmpas y Cynnlun Cynnwys Cymunedau (CCC)** | 22 |
| Cyflwyniad | 22 |
| Amcanion ac Egwyddorion y CCC | 22 |
| Gan bwy fyddwn yn disgwyl cael mewnbwn | 23 |
| Pryd fydd y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y broses | 24 |
| Dulliau o gysylltu, ymgynghori a chyfranogi | 25 |
| Cysylltiadau a Chynllun Gofodol Cymru a gwaith ar y cyd | 27 |
| Ymglymiad Cynghorwyr | 27 |
| Ymglymiad swyddogion y Cyngor | 28 |
| Argaeledd dogfennau ac adborth | 28 |
| Defnyddio'r iaith Gymraeg ac ieithoedd eraill | 28 |

# ATODIAD 1

| | |
|---|---|
| Beth fydd yn ddisgwyliedig gan y cymunedau a’r budd-ddeiliaid allweddol | 29 |
| Y Gofrestr Safleoedd Posib | 29 |
| **Atodiadau** | |
| Atodiad 1: Siart lif o’r broses paratoi’r Cytundeb Cyflawni | 30 |
| Atodiad 2: Ffeithiau a Ffigurau Strategol Allweddol | 31 |
| Atodiad 3: Camau allweddol ym mhroses paratoi’r CDLl ar y Cyd a chyfleon cyfranogi | 35 |
| Atodiad 4: Rol y pwyllgorau gwahanol yn y broses o baratoi’r CDLl ar y Cyd | 71 |
| Atodiad 5: Profion cadernid | 72 |
| Atodiad 6: Risgiau posib a dulliau ymateb | 73 |
| Atodiad 7: Cyrff Ymgynghori Cyffredinol | 77 |
| Atodiad 8: Cyrff Ymgynghori Penodol | 80 |
| Atodiad 9: Grwp Rhanddeiliaid Allweddol | 83 |

# Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

## RHAN 1: Cyd-destun

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi **Cynllun Datblygu Lleol** (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi penderfynu paratoi CDLl ar y Cyd ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd. Nid yw'r rhannau o Wynedd sydd du mewn i Barc Cenedlalethol Eryri yn rhan o ardal y CDLl ar y Cyd. Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos ardal y CDLl ar y Cyd.

1.1.2 Pan gaiff y CDLl ar y Cyd ei fabwysiadu fe fydd yn disodli'r Cynlluniau Datblygu a welir yn y tabl canlynol. Fe fydd hefyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Môn (gafodd ei stopio yn 2005), sy'n ystyriaeth cynllunio perthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan Gyngor Sir Môn ar hyn o bryd.

| Ardal Awdurdod Cynllunio Môn | Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd |
|---|---|
| • Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)<br>• Cynllun Lleol Ynys Môn (1996) | • Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) |

**Tabl 1: Rhestr o'r Cynlluniau Datblygu a gaiff eu disodli ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd**


Unwaith y caiff y CDLl ar y Cyd ei fabwysiadu bydd rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ardal y ddau Awdurdod Cynllunio'n cael eu selio ar gynnwys y CDLl ar y Cyd.

1.1.3 Rhai o brif amcanion y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yw:

- gwneud y cynllun a fydd yn sail i benderfyniadau am geisiadau cynllunio yn fwy perthnasol, cynhwysol a deniadol i gymunedau lleol, ac i
- annog cydweithrediad ym mysg partneriaid allweddol.

1.1.4 Yn gyntaf, mae'n rhaid i Gyngor Sir Môn a Chyngor Gwynedd, fel yr Awdurdodau Cynllunio sy'n gyfrifol am faterion cynllunio ym Môn a'r rhan hwnnw o Wynedd sydd du allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, ddrafftio **Cytundeb Cyflawni**.

# Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd




**Map 1: Ardal y CDLl ar y Cyd**

## 1.2 Beth yw Cynllun Datblygu Lleol

1.2.1 Bydd yn dweud beth fydd y strategaeth a'r amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ardal Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd ac yn cynnwys polisïau a ddefnyddir i weithredu nhw dros gyfnod o 15 mlynedd, sef rhwng 2011 a 2026. Fe fydd gan y CDLl ar y Cyd ddylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad yr ardal gyfan a'r cymunedau unigol. Fe fydd yn darparu arweiniad ynglŷn â lle bydd tai newydd, cyfleon cyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chymunedol yn cael eu hadeiladu yn yr ardal. Defnyddir y CDLl ar y Cyd i benderfynu pa ddatblygiadau fydd yn cael caniatâd yn y dyfodol gan y Cynghorau ac yn lle.

1.2.2 Mae gofyn bod y CDLl ar y Cyd yn 'gadarn', h.y. yn arddangos barn dda ac y gellir ymddiried ynddo. Fe fydd rhaid edrych ar y materion sy'n bwysig i'r ardal, ei selio ar dystiolaeth am yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd, ac fe fydd rhaid rhoi ystyriaeth deg i ddewisiadau amgen ymarferol. Ceir crynodeb fer o nodweddion boblogaeth ardal y CDLl ar y Cyd ynghyd a chrynodeb fer o'r cyd-destun lleol yn Rhan 2 o'r ddogfen yma.

1.2.3 Mae'n rhaid i'r CDLl ar y Cyd ofalu bod datblygiadau'n gynaladwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Bydd yr **Adroddiad Asesiad Cynaladwyedd** yn dangos sut y mae'r rhain wedi cael eu hystyried. Ceir mwy o fanylion am yr Adroddiad yma yn ogystal â'r **Asesiad Priodol** yn Rhan 2 o'r CC.

1.2.4 Unwaith y caiff ei fabwysiadu fe fydd y CDLl ar y Cyd yn:

- glir, tryloyw, cryno, ac ar gael i'w weld gan y cyhoedd;
- haws i'w adolygu yn y dyfodol;
- gallu tywys lleoliad a math o ddatblygiad;
- darparu sail glir a chadarn ar gyfer penderfyniadau am geisiadau cynllunio unigol ac apeliadau;
- osgoi ail-adrodd polisi cynllunio cenedlaethol;
- cynnwys y strategaeth ar gyfer datblygu yn ardal Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd;
- dangos ardaloedd a fydd yn newid neu'n cael eu gwarchod;
- cynnwys polisïau datblygu generig;
- rhoi sylw i gynlluniau a strategaethau statudol ac allweddol eraill, fel y Strategaethau Gymunedol a'r Cynllun Gofodol i Gymru.

1.2.5 Gan fod disgwyl i'r CDLl ar y Cyd fod yn glir ac yn fwy canolog ("focussed") mae yna rôl bwysig i **Ganllawiau Cynllunio Atodol** i ategu strategaeth y CDLl ar y Cyd, a'i bolisïau a'r dynodiadau trwy ddarparu arweiniad mwy technegol a manwl. Ceir rhagor o wybodaeth am y Canllawiau yma yn Rhan 2 o'r CC.

DRAFT

## 1.3 Beth yw Cytundeb Cyflawni (CC)

1.3.1 Mae'n rhaid paratoi CC cyn y gellir symud ymlaen i'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae'r CC ar ei ffurf derfynol yn rhan bwysig a chyfreithiol o'r broses o lunio'r CDLl ar y Cyd ac mae'n ffurfio cytundeb swyddogol rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLl ar y Cyd fe fydd unrhyw wyriadau oddi wrth y CC na chafodd eu cytuno iddynt gan Lywodraeth Cymru yn ffurfio prawf pwysig o gadernid y CDLl ar y Cyd. Mae cynnwys y CC a'r dull y bydd y Cynghorau'n ei weithredu felly yn hanfodol i lwyddiant oferôl y CDLl ar y Cyd.

1.3.2 Cafodd y CC yma ei lunio'n unol a deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cynllunio perthnasol, sy'n cynnwys y canlynol:

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005;
- Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu Lleol 2006

Gellir gweld y ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cynllunio perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru (www.wales.gov.uk).

1.3.3 Mae'r CC yma'n disodli'r CC diwygiedig a gafodd ei baratoi a'i fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Ionawr 2009.

1.3.4 Mae yna ddau brif adran i'r CC yma, sef:

**Adran A – Cynllun Rheoli Amserlen Paratoi'r CDLl ar y Cyd**, a fydd yn dweud:

- beth fydd yr amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd
- beth yw cwmpas a dylanwad y CDLl ar y Cyd
- beth fydd yn debygol o ddylanwadu ar y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd a'i gynnwys
- beth fydd yr ymrwymiad cyllidebol ac adnoddau staff o fewn y Cyngor ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd

**Adran B – Cynllun Cynnwys Cymunedau**, a fydd yn dweud:

- gyda phwy fydd y Cynghorau'n cysylltu efo wrth baratoi'r CDLl ar y Cyd;
- sut a phryd y gall swyddogion y Cynghorau, Aelodau etholedig, y cyhoedd, grwpiau sydd gan ddiddordeb yn yr ardal, a datblygwyr gyfrannu at y broses gyfan;
- beth fydd yn digwydd i'r ymatebion.

Ceir manylion am y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn Rhan 6 o'r CC.

DRAFT

## 1.4 Paratoi'r CC

1.4.1 Caiff CC drafft ei baratoi ac fe fydd yn destun ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid allweddol. Rhoddir ystyriaeth lawn i bob sylw a dderbynnir ac fe gaiff y CC ei ddiwygio lle y bydd yn briodol i wneud hynny. Pan fydd y Cynghorau'n penderfynu eu bod yn fodlon gyda'r CC fe gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cael ei gytundeb. Mae Atodiad 1 yn cynnwys siart lif sy'n dangos y broses sy'n rhaid ei ddilyn wrth baratoi'r CC. Bydd rhaid i'r Cynghorau gadw golwg ar y cynnydd yn erbyn cynnwys y CC. Os y bydd angen gwneud diwygiadau yna fe fydd yn rhaid dilyn yr un broses unwaith eto.

DRAFFT

## ADRAN A: CYNLLUN RHEOLI AMSERLEN PARATOI'R CDLL AR Y CYD

### RHAN 2: Cwmpas y CDLl ar y Cyd a'r dylanwadau arno

### 2.1 Cwmpas y CDLl ar y Cyd

2.1.1 Wrth lunio'r CDLl ar y Cyd mae'n bwysig bod ystyriaeth fuan yn cael ei roi i'w ffurf a'i gynnwys. Bydd y CDLl ar y Cyd yn canolbwyntio ar faterion sydd yn neilltuol bwysig i ardal y CDLl ar y Cyd, ac ni fydd yn ail-ddweud polisi cynllunio cenedlaethol yn ddi-angen. Dylai'r polisiau a'r cynigion yn y CDLl ar y Cyd fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion, cyfleoedd a chyfyngiadau'r ardal. Fe roddwyd fap sy'n dangos ardal y CDLl ar y Cyd ar dudalen 2 ac mae'r paragraffau nesaf yn rhoi amlinelliad cryno o'r ardal.

2.1.2 Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn a rhan o Wynedd. Mae tir mawr Gwynedd wedi ei gysylltu drwy bontydd ffordd a thrên gydag Ynys Môn. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn ardal wledig gyda chyfanswm arwynebedd tir dua 3,260 cilomedr sgwâr. Mae hyn yn ei wneud yn un o'r ardaloedd fwyaf yng Nghymru o ran arwynebedd tir sy'n destun CDLl.

2.1.3 Ardal y CDLl ar y Cyd yw'r ardal fwyaf o ran arfordir, - tua 511 o gilomedrau. Mae'r arfordir yn ymestyn o gwmpas Ynys Môn ac wedyn o Draeth Lafan ar lan ddwyreiniol Afon Menai yng ngogledd Gwynedd ymlaen i Fae Caernarfon, Ynys Enlli gan orffen ym Mae Ceredigion yn Nhywyn yn y de. Mae rhan helaeth o'r arfordir o gwmpas Ynys Môn, sef 50 cilomedrau a 88 cilomedrau o'r arfordir ar hyd Penrhyn Llŷn wedi'u dynodi'n Arfordiroedd Treftadaeth.

2.1.4 Y prif drefi yw Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog, a Phwllheli. Ceir nifer o drefi allweddol llai fel Abermaw, Amlwch, Biwmaris, Nefyn, Porthaethwy, Tywyn. Mae'r ardal yn ffinio â siroedd Conwy a Dinbych i'r dwyrain, Powys i'r de ddwyrain a Cheredigion i'r de a gydag ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sydd hefyd i'r de.

2.1.5 Un o nodweddion amlycaf ardal y CDLl ar y Cyd yw ansawdd uchel y tirwedd a'r amgylchedd. Ceir dwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a nifer helaeth o ddynodiadau cadwraeth natur lleol, cenedlaethol a rhanbarthol. Yma hefyd y gwelir dau o'r safleoedd sy'n ffurfio Safle Treftadaeth Byd Eang – Cestyll a Waliau Trefi'r Brenin Edward 1, sef Castell Caernarfon a Waliau'r dref a Chastell Biwmaris.

2.1.6 Mae Astudiaeth y Farchnad Lafur Gogledd Gorllewin Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2010) yn disgrifio perfformiad a

DRAFT

rhagolygon yr economi lleol ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd fel a ganlyn:

Ynys Môn – dirwasgiad dwys, rhagolwg gwael

O 2008 - 2010, amcangyfrifir gostyngiad o 8.9% mewn cyflogaeth, gan gyrraedd ymron i fil a hanner o swyddi. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi o bell ffordd wedi'u crynhoi yn y diwydiant gweithgynhyrchu, sy'n hafal i oddeutu dwy ran o dair o niferoedd y swyddi a gollwyd; cyfran helaeth o'r swyddi hyn yn rhai a gollwyd wrth gau cwmni Alwminiwm Môn (*Anglesey Aluminium Metal Ltd*).

Pery cyflogaeth i ddisgyn yn ystod 2010 - 2015 (gostyngiad o 3.1%, ymron i bum cant o swyddi) gan adlewyrchu cwymp ym meysydd gweithgynhyrchu, gweinyddiaeth gyhoeddus a chynhyrchu trydan, yn ogystal â digomisiynu gorsaf ynni niwclear Yr Wylfa yn 2010 gan effeithio'n benodol ar ogledd Ynys Môn.

Wedi hyn, tra bo'r economi yn sefydlogi a heb olyniaeth i'r Wylfa, ymddengys y bydd economi Ynys Môn yn cwympo'n barhaus yn y tymor hir.

Gwynedd – yn fregus yn y tymor canolig

Mae effaith y dirwasgiad yn arwyddocaol yng Ngwynedd gyda cholli oddeutu mil a thri chant o swyddi (-3.2%) ar hyd amrediad o sectorau. Serch hynny, mae amaethyddiaeth yn perfformio'n gymharol dda gyda dibrisiad y sterling yn erbyn yr ewro yn gwneud cynnyrch yn fwy cystadleuol yn y farchnad Ewropeaidd, yn enwedig allforion cig eidion a chig oen.

Mae'r sector cyhoeddus yn elfen arwyddocaol o economi Gwynedd gyda sefydliadau allweddol wedi'u lleoli yma, yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor ac Ysbyty Gwynedd. Felly, mae lefelau cyflogaeth yn parhau i ddisgyn rhwng 2010 a 2015 ac oddeutu chwe chant o swyddi yn cael eu colli (-1.5%), yn y sector cyhoeddus yn bennaf.

Bydd yr economi yn dechrau sefydlogi o dipyn i beth o 2015 a cheir rhywfaint o dwf cymharol. Effeithir yn negyddol ar dwf yn ystod y cyfnod hwn gan y gostyngiad yn y gyflogaeth a geir yn Nhrawsfynydd, a fydd, ynghyd â'r cwymp yn y gyflogaeth yn y sector amaeth, yn effeithio'n uniongyrchol ar Feirionnydd.

DRAFT

2.1.6 Mae Atodiad 2 yn cynnwys amlinelliad o'r materion a thueddiadau strategol yn ardal y CDLl ar y Cyd yn ogystal a map sy'n dangos nodweddion tirwedd ac amgylcheddol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol cydnabyddedig.

2.1.7 Mae'r broses Cyd Gynllunio ar gyfer Gwynedd Yfory yn ystod 2010 wedi adnabod cyfres o ganlyniadau ac is-ganlyniadau drafft ar gyfer Gwynedd. Mae'r tabl isod yn eu hadnabod:

**Canlyniadau ac is-ganlyniadau strategol drafft ar gyfer Gwynedd**

**1. Economi sy'n Ffynnu**

i. Swyddi o safon o fewn y sir, a'r boblogaeth â'r sgiliau i fanteisio arnynt
ii. Economi leol sy'n manteisio ar sectorau gwerth uchel, gan gynnwys economi werdd a chynaliadwy
iii. Sectorau allweddol sy'n cynnal cyflogaeth sylfaenol wedi ei galluogi i ymdopi efo newid
iv. Gweithlu wedi ei gefnogi i ymdopi efo newidiadau sylweddol yn yr economi leol
v. Y sector gymdeithasol yn chwarae rhan lawn mewn sicrhau economi gref ag amrywiol
vi. Isadeiledd cadarn i hybu ffyniant yr economi ar draws Gwynedd

**2. Amgylchedd Gynaliadwy**

i. Ôl troed Carbon Gwynedd yn isel
ii. Pobl a chymunedau Gwynedd yn gallu ymdopi â newid hinsawdd

**3. Plant a Phobl Ifanc Gwynedd yn Llwyddo i gael dyfodol da**

i. Rhieni a theuluoedd yn llwyddo i fagu a gofalu am eu plant
ii. Plant a phobl ifanc yn llwyddo i ddysgu, ennill sgiliau hanfodol ac i fentro
iii. Plant a phobl ifanc yn llwyddo i leisio'u barn a chymryd rhan lawn ym mywydau eu cymunedau
iv. Plant a Phobl Ifanc yn llwyddo i fyw'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau egniol, diwylliannol a chymdeithasol

**4. Cymunedau Cryf a Diogel**

i. Cymunedau byrlymus a hunangynhaliol
ii. Pobl Gwynedd â mynediad a chludiant rhesymol at wasanaethau o safon
iii. Mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis aros yn y sir i fyw a gweithio
iv. Cymunedau a theuluoedd Gwynedd wedi eu cefnogi i godi allan o dlodi
v. Pobl Gwynedd yn teimlo yn ddiogel o fewn eu cymuned
vi. Cartrefi sydd yn addas ar gyfer anghenion trigolion Gwynedd

vii. Trefi a phentrefi sydd yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd
viii. Yr iaith a diwylliant Cymraeg yn ffynnu o fewn Cymunedau Gwynedd

| **5. Gwell Iechyd a Gofal yn y Gymuned** |
|---|

i. Pobl Gwynedd yn derbyn cefnogaeth addas i fyw yn fwy annibynnol
ii. Pobl Gwynedd yn byw bywydau iach a diogel
iii. Pobl Gwynedd yn cael cyfle cyfartal i gael iechyd da

**Tabl 2: Canlyniadau strategol ar gyfer Gwynedd**

2.3.8 Ar hyn o bryd mae'r Strategaeth Gymunedol gyfredol ar gyfer Ynys Môn (2005) yn adnabod y chwe nod strategol allweddol canlynol:

- Creu dyfodol ffyniannus i Ynys Môn drwy adfywio economaidd cynaliadwy,
- Hybu unigolion a chymunedau iach ac egnïol,
- Gwarchod a hybu amgylchedd cyfoethog, amrywiol ac o ansawdd uchel yr ynys,
- Hybu ynys ddiogel lle gall pobl fyw'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau, heb ofni troseddau,
- Cefnogi cymunedau cryf, a chynhwysol sy'n ffynnu
- Cefnogi cymunedau cwbl ddwyieithog lle gall yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r dreftadaeth lwyddo a ffynnu.

2.3.9 Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Ynys Môn eisoes wedi dechrau'r broses o adolygu'r Strategaeth Gymunedol a'i sail dystiolaeth.

2.3.10 Fe fydd y gwaith o ddatblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLl ar y Cyd er mwyn adnabod y prif faterion a'r amcanion i'w trafod yn y Cynllun, yn ogystal a phenderfynu ar ei sylfaen, yn golygu adolygu'r wybodaeth a'r data sydd ar gael yn barod ynglŷn a'r uchod (neu unrhyw ddiweddariad ohonynt) mewn ystod eang o ddogfennau gan gynnwys strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ogystal a hynny bydd angen edrych ar ffactorau sy'n ymwneud a'r galw am ddatblygu a chyfleon datblygu. Bydd dadansoddiad o'r wybodaeth a'r data am yr uchod yn dylanwadu ar gyfansoddiad grwpiau/ fforymau y bydd y Cynghorau'n eu targedu er mwyn canfod eu disgwyliadau a'u dyheadau ar gyfer y CDLl ar y Cyd ac i gael cyn gymaint o ddealltwriaeth ar y cyd ag sy'n bosib am faterion pendodol.

## 2.2 Fformat tebygol y CDLl ar y Cyd

2.2.1 Dyma ragwelir fydd fformat bras y CDLl ar y Cyd

- Cyflwyniad
- Strategaeth - gweledigaeth, prif amcanion, materion strategol, polisïau allweddol/ strategol a thargedau Mônitro
- Polisïau generig
- Prif ddynodiadau tir
- Polisïau penodol/ cynigion ar gyfer ardaloedd unigol lle fydd newid neu angen gwarchodaeth
- Cyfiawnhad byr i bolisiau
- Map cynigion

## 2.3 Canllawiau Cynllunio Atodol

2.3.1 Dogfennau anstatudol ydy Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ac maent yn cael eu paratoi er mwyn atgyfnerthu polisiau neu gynigion sydd mewn CDLl. Mae CCA yn bwysig yn y broses gynllunio ac yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae gan y Cynghorau gyfres o CCA sydd yn atgyfnerthu'r cynlluniau datblygu presennol ac fe fydd y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yn golygu bydd angen adolygu'r rhain ac o bosib paratoi rhai newydd. Bydd rhestr o'r CCA presennol yn cael ei gyhoeddi gan nodi os ragwelir y bydd angen eu diwygio ac yn adnabod rhai ychwanegol wrth gyhoeddi'r CDLl ar y Cyd Cyn-adneuo.

2.3.2 Bydd angen ymgynghori gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol wrth ddiwygio'r CCA presennol ac wrth baratoi rhai newydd. Byddant yn cael eu cyhoeddi a'u rhoi ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus. Lle bydd yn bosib bwriedir cynnal yr ymgynghoriad ar yr un pryd ag ymgynghoriad am y CDLl ar y Cyd (yn enwedig lle gall y CCA helpu'r darllenwyr i ddeall polisi neu gynnig yn y CDLl ar y Cyd yn well). Ni fydd yn bosib gwneud hynny pob tro ac mewn amgylchiadau fel hynny bydd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar wahan ar y CCA hynny. Bydd y Cynghorau'n mabwysiadu'r CCA a fydd yn cefnogi'r CDLl ar y Cyd ar ol derbyn adroddiad yr Arolygydd am gadernid y CDLl ar y Cyd.

## 2.4 Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Asesiad Priodol

2.4.1 Mae Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 yn dweud bod rhaid i'r CDLl ar y Cyd fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac i adrodd am ganfyddiadau'r gwaith yma trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun. Mae'r CDLl ar y Cyd hefyd wedi cael ei adnabod gan gyfraith Ewrop fel math o gynllun sydd rhaid bod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol. (AAS). Mae gan y Rheoliadau AAS eu gofynion penodol eu

DRAFT

hunain. Er hynny mae'n bosib gwerthuso'r CDLl ar y Cyd yn unol a gofynion y Rheoliadau yma ar y cyd a'r AC. Dyma bwriedir ei wneud ac fe fydd gwneud hynny'n gyson a chanllawiau Llywodraeth Cymru am y mater yma.

2.4.2 Bydd y CDLl ar y Cyd yn ymwneud a materion ieithyddol a diwylliannol, materion cydraddoldeb a materion iechyd. Bydd y broses AC yn asesu effaith y CDLl ar y Cyd ar y materion yma. Caiff yr agwedd yma o'r broses AC ei selio ar wybodaeth ddaw i law yn sgil gweud Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Asesiad Effaith Iechyd ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ar adegau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Bydd yr AC a'r AAS ar y cyd yn rhoi'r wybodaeth berthnasol ar gyfer llunio polisiau priodol yn y CDLl ar y Cyd trwy gydol y broses o'i baratoi.

2.4.3 Yn ychwanegol i hyn mae cyfraith arall Ewrop yn dweud bod rhaid i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000 (sef Ardal Gadwraeth Arbennig – ACA, Ardal o Warchodaeth Arbennig – AGA, neu safle Ramsar) fod yn destun y Rheoliadau Cynefinoedd. Fe all fod angen gwneud Asesiad Priodol o'r CDLl ar y Cyd er mwyn cyd-fynd a'r Rheoliadau yma. Bwriad y Rheoliadau yma yw sicrhau cywirdeb y safleoedd dan sylw. Bydd casgliadau'r gwaith yma hefyd yn bwydo i mewn yn gyson i'r AC ac AAS ar y cyd.

2.4.4 Ceir mwy o fanylion am y camau allweddol a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau yn Atodiad 3. Wrth lunio'r AC ac AAS ar y cyd fe ddefnyddir Grwpiau Tasg Asesiad Cynaladwyedd a fydd yn cynnwys swyddogion proffesiynol sydd a diddordeb ac arbenigedd yn y meysydd perthnasol. Ar adegau priodol fe fydd cynrychiolwyr o sefydliadau arbenigol yn ymuno a'r Grwpiau yma. Fe benodwyd ymgynghorydd allanol sydd ag arbenigedd yn y maes i wirio'r gwaith drwy gydol y broses yn ogystal a pharatoi dogfennau perthnasol a chysylltu a'r cyrff amgylcheddol. Bydd y Grwpiau yn cynorthwyo gyda'r gwaith o asesu effeithiau'r rhannau perthnasol o'r CDLl ar y Cyd ar y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

## 2.5 Cysylltiadau â pholisïau a strategaethau allweddol cenedlaethol, a rhanbarthol a rhai lleol cyfagos

Mae'n bwysig ystyried sut y gall polisiau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol yn ogystal a pholisiau a strategaethau awdurdodau cyfagos ddylanwadu ar ardal y CDLl ar y Cyd, e.e. pa rol mae'r Cynllun Gofodol yn ei ragweld ar gyfer yr ardal, cynigion yn y Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, mentrau mewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r polisiau a'r strategaethau allweddol wedi cael eu cofnodi a cant eu hadolygu er mwyn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'r cyfleon neu gyfyngiadau a ddaw yn eu sgil.

DRAFT

## 2.6 Cynlluniau a strategaethau eraill ar gyfer Môn a Gwynedd

2.6.1 Mae'r Cynghorau'n ymrwymedig i wireddu gweledigaethau'r Strategaethau Cymunedol ar gyfer Môn a Gwynedd trwy amcanion a nodau nifer o gynlluniau a strategaethau mae'r Cynghorau unigol yn gyfrifol am eu paratoi neu rai lle mae'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill i'w paratoi. Mae synergedd corfforaethol yn hanfodol i wireddu hyn, a chan fydd y CDLl ar y Cyd yn amcanu i wireddu'r elfennau defnydd tir yr holl gynlluniau a strategaethau perthnasol, mae ganddo rol allweddol fel un o ddogfennau corfforaethol strategol y ddau Gyngor. Bydd ymdrin a materion mewn modd cysylltiedig hefyd yn sicrhau na fydd y Cynghorau'n ail-adrodd gwaith sydd wedi cael ei wneud yn barod.

2.6.2 Bydd y sail dystiolaeth ar gyfer y CDLl ar y Cyd hefyd yn tynnu llawer allan o'r ystod helaeth ac eang o gynlluniau a strategaethau corfforaethol cyfredol, sy'n cynnwys:

- Strategaeth Gymunedol Gwynedd (2008 – 12),
- Strategaeth Tai Lleol Gwynedd (2009 – 12)
- Strategaeth Adfywio Gwynedd (2007 – 13),
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Ynys Môn (2008 – 11)
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer Ynys Môn (2008 – 11),
- Cynllun Rheoli AHNE Llyn (2010 – 15),
- Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2009 – 14),
- Bywyd Môn (2007),
- Rhaglen Ynys Ynni Môn (2010)

Mae'r sail dystiolaeth wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd rhestr o ddogfennau ar gael i'w weld ar wefan y Cynghorau, yn y llyfrgelloedd cyhoeddus a phrif swyddfeydd y Cynghorau ym Mangor, Caernarfon, Dolgellau, Llangefni a Phwllheli.

2.6.3 Mae'r Strategaethau Cymunedol ar gyfer Môn a Gwynedd a sawl strategaeth/ gynllun allweddol arall yn cael eu adolygu gan y Cynghorau a'u partneriaid yn ystod 2010 – 2012. Fe fydd cyfnodau cynnar yr adolygiadau yma'n cyd-ddigwydd a chyfnodau cynnar o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyd-gynllunio'n strategol ac mae mesurau yn eu lle gan y ddau Gyngor i hwyluso hynny.

2.6.4 Er mwyn sicrhau y bydd y CDLl ar y Cyd yn gwireddu'r synergedd yma ac ei fod yn adlewyrchu amcanion corfforaethol a strategol y Cyngor fe sefydlwyd Panel CDLl ar y Cyd, sy'n cynnwys Cynghorwyr o'r ddau Gyngor. Fe fydd y Panel yn cwrdd yn rheolaidd ac yn rhoi arweiniad am bolisi a chynigion yn ogystal a rheolaeth y broses. Bydd yr Uned

DRAFT

Polisi Cynllunio ar y Cyd (gweler 3.1.3 isod) yn cefnogi ac yn adrodd i'r Panel. Fe roddir gwahoddiad i swyddogion o Unedau eraill i fynychu'r cyfarfodydd fel bo'r angen i roi tystiolaeth a chymorth. Ni fydd gan y Panel hawl gwneud penderfyniadau. Fe fydd yn gwneud argymhellion i Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a/ neu i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn/ Bwrdd Cyngor Gwynedd sydd gan hawl gwneud penderfyniadau ar ran y Cynghorau, oni bai bod rheoliadau yn nodi bod rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn. Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn dangos yn fras beth fydd rol y gwahanol bwyllgorau.

## 2.7 Profion Cadernid

2.7.1 Rhaid i'r CDLl ar y Cyd basio'r prawf "cadernid". Mae llunio'r CDLl ar y Cyd yn unol â'r CC a gyhoeddwyd yn un o'r profion cadernid. Yn y bon fe fydd cynllun cadarn yn un sydd: wedi cael ei lunio'n gywir yn unol â'r gofynion statudol; sy'n seiliedig ar sylfaen tystiolaeth cryf a chredadwy; ac sydd wedi cael ei ddatblygu gyda chyfraniad parhaus gan y gymuned; yn dangos integreiddio polisïau; ac sy'n cyfrannu tuag at sicrhau datblygu cynaladwy.

2.7.2 Yr Arolygydd a fydd yn cynnal yr Archwiliad Cyhoeddus a fydd yn penderfynu os fydd y CDLl ar y Cyd yn gadarn. Mae'r Arolygaeth Cynllunio wedi cyhoeddi canllawiau am y mater, sef "A guide to the examination of Local development plans" a gellir ei weld ar wefan yr Arolygaeth Cynllunio (www.pins.gov.uk). Rhestrir y profion o gadernid er gwybodaeth yn Atodiad 5 i'r CC yma.

DRAFT

## RHAN 3: Yr adnoddau a'r amserlen

Mae'r amserlen ar gyfer y gwahanol gamau yn y broses o baratoi CDLl ar y Cyd, sut gaiff y broses ei reoli a gwybodaeth am yr adnoddau sy'n angenrheidiol ar ei gyfer yn un rhan allweddol o'r Cytundeb Cyflawni (CC).

### 3.1 Yr adnoddau – staff

3.1.1 Mae'n ofynnol i'r Cynghorau ymrwymo adnoddau staff ac yn ariannol ar gyfer cymryd y gwahanol gamau yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd.

3.1.2 Y Bwrdd Prosiect sy'n cynnwys y swyddogion canlynol sydd a chyfrifoldeb am gyflawniad oferol y CDLl ar y Cyd:

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Gwynedd |
|---|---|
| • Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol;<br>• Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | • Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n rhoi arweiniad strategol ym meysydd iechyd, lles a gofal cymdeithasol, darparu, hamdden, trafnidiaeth, tai a meysydd rheoleiddio (cynllunio a gwarchod a cyhoedd);<br>• Pennaeth yr Adran Rheoleiddio (Amgylchedd, Cynllunio, Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Gwarchod y Cyhoedd) |

**Tabl 3: Bwrdd Prosiect y CDLl ar y Cyd**

3.1.3 Sefydlwyd Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn arwain ar y gwaith dydd i ddydd o lunio'r CDLl ar y Cyd ac unrhyw ddogfennau ymgynghorol. Mae'r tabl canlynol yn dangos strwythur yr Uned ac amcangyfrifiad o amser y swyddogion a roddir i lunio'r CDLl ar y Cyd:

| Teitl y swyddog | % amser a ddyrannwyd ar gyfer y CDLL AR Y CYD |
|---|---|
| Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd) | 20 |
| Rheolwr Polisi Cynllunio x 1 | 70 |
| Arweinwyr Tim Polisi Cynllunio x 2 | 70 |
| Uwch Swyddogion Polisi Cynllunio x 4 | 80 |
| Swyddogion Polisi Cynllunio x 2 | 90 |
| Cynorthwyydd Polisi Cynllunio x 1 | 90 |
| Cynorthwyydd Systemau Polisi Cynllunio x 1 | 90 |
| Cynorthwydd Cynllunio Cefnogol x 1 | 90 |

**Tabl 4: Yr adnoddau staff**

3.1.4 Bydd swyddogion o Wasanaethau eraill y Cynghorau hefyd yn rhan o wahanol agweddau o'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yn ôl y galw. Bydd y gefnogaeth yma'n cynnwys cymorth wrth lunio polisiau, asesiad cynaliadwyaedd, asesiad rheoliadau cynefinoedd a chyngor arbenigol i ymateb i sylwadau a dderbynnir.

3.1.5 Rhoddir ystyriaeth i'r posibilrwydd o gyflogi aelodau ychwanegol o staff i gynorthwyo yn ystod adegau penodol, e.e. yn ystod ac yn syth ar ol cyfnodau ymgynghori ffurfiol. Prynwyd pecyn cyfrifiadurol pwrpasol i hwyluso'r broses o roi dogfennau allweddol ar y we, i alluogi budd-ddeiliaid i roi sylwadau ar lein ac i hwyluso'r broses o ddadansoddi'r sylwadau a dderbynnir.

3.1.6 Lle bydd angen, caiff ymgynghorwyr allanol eu comisiynu i wneud arolygon technegol/ arbenigol, i gyfrannu at gapasiti'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i wneud arolygon, neu i roi cyngor ar faterion penodol technegol/ arbenigol. Bydd hyn yn arbennig o wir yn ystod blynyddoedd cyntaf y rhaglen. Disgwylir y bydd angen swm o hyd at oddeutu £400,000 ar gyfer y gwaith yma. Mae'r tabl canlynol yn adnabod rhai o'r materion posib a fydd angen sylw o'r math yma:

DRAFT

| **Testun** |
| --- |
| Rhagolygon poblogaeth, aelwydydd a thai cenedlaethol – dadansoddiad a dealltwriaeth |
| Anghenion y farchnad tai – dadansoddiad a dealltwriaeth o'r gyrrwyr |
| Hyfywdra datblygiadau tai – methodoleg i'w asesu |
| Anghenion yr economi leol yn y dyfodol ac asesiad o ansawdd a chyflenwad tiroedd cyflogaeth |
| Anghenion manwerthu a chapasiti, gan gynnwys rol canolfannau a chanol trefi |
| Anghenion y sector dwristiaeth a chapasiti |
| Asesiad o lecynnau agored adloniadol a gwyrdd |
| Anghenion Sipsiwn a Theithwyr ac ymateb iddynt |
| Asesiad o gymeriad y tirlun |
| Asesiad ynni adnewyddol |
| Asesiad o gapasiti trefol – gwir botensial i gyflenwi'r galw |
| Asesiad strategol o berygl llifogydd Lefel 1 (a Lefel 2 o bosib) |
| Cyfarwyddyd am y broses AAS ac Asesiad Priodol |

**Tabl 5: Materion posib lle bydd angen prynu arbenigedd technegol allanol**

DRAFT

## 3.2 Yr adnoddau – cyllid

3.2.1 Ar sail profiadau o baratoi cynlluniau datblygu yn y gorffennol a phrofiadau awdurdodau eraill mae'r Cynghorau wedi neilltuo swm o arian er mwyn sicrhau bod y CDLl ar y Cyd yn symud ymlaen drwy'r broses yn unol â'r Cytundeb Cyflawni o leiaf hyd at yr Archwiliad Cyhoeddus. Gwneir ceisiadau am ragor o gyllid, os bydd angen, trwy brosesau bidio mewnol arferol y Cynghorau.

## 3.3 Yr amserlen

3.3.1 Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn dweud pa gamau sydd raid eu cymryd ar gyfer paratoi CDLl ar y Cyd. Mae Tabl 6 isod yn enwi'r camau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd ac mae'n nodi'r amserlen fras arfaethedig gyfer cwblhau'r camau hynny. Mae'r amserlen yn seiliedig ar yr adnoddau a gyfeiriwyd ato uchod ac mae'n cydnabod etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2012. Anelir i sicrhau y bydd y trafodaethau allweddol gyda Chynghorwyr, Swyddogion Strategol a'r Grwpiau Rhanddeiliaid wedi digwydd ac fe fydd penderfyniadau pwysig ynglyn a gweledigaeth a'r amcanion cyffredinol ar gyfer yr ardal, y strategaeth a ffefrir, y goblygadau ar gyfer datblygiadau yn sgil gweithredu'r strategaeth yma, gan gynnwys adnabod unrhyw safleoedd mawr a chyfres o safleoedd llai wedi cael eu cymryd erbyn hynny. Ceir amserlen fwy manwl yn Atodiad 3.

| **Cam yn y broses paratoi** | | **Amserlen** |
|---|---|---|
| | **Amserlen derfynol** | |
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Gorffennaf 2012 |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | Ionawr 2011 – Gorffennaf 2012 |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Medi 2012 – Hydref 2012 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau cyn-adneuo | Tachwedd 2012 – Medi 2013 |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Hydref 2013 – Tachwedd 2013 |
| | **Amserlen ddangosol**[1] | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014 |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Ionawr 2014 – Chwefror 2014 |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Tachwedd 2014 |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Ebrill 2015 |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Ionawr 2016 |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Ebrill 2016 |
| 13. | **Monitro ac Adolygu** | Adroddiad blynyddol |

**Tabl 6: Amserlen paratoi'r CDLl ar y Cyd**

3.3.2 Yn unol â Rheoliadau'r CDLl ar y Cyd fe gaiff yr amserlen derfynol ar gyfer cymryd camau 7 - 12 ei benderfynu o fewn 3 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori ar y CDLl ar y Cyd a roddwyd ar adnau. Yn ystod y cyfnod yma fe fydd y Cyngor wedi cytuno ar amserlen yr Archwiliad Cyhoeddus gyda'r Arolygaeth Cynllunio.

[1] Bydd yr amserlen ar gyfer cymryd camau 7 – 12 yn ddibynol ar ffactorau a dylanwadau allanol nad yw'n wybyddus i'r Cyngor 'rwan

## RHAN 4: Rheoli risg

### 4.1 Gwneud penderfyniadau

4.1.1 Ar ol ystyried yr holl dystiolaeth cyfrifoldeb Pwyllgor Gwaith/ Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Cyngor Gwynedd fydd gwneud penderfyniadau am gynnwys y dogfennau yn yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, e.e. Cytundeb Cyflawni a'r Dogfennau Cyn-Adneuo. Bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gwneud penderfyniadau ar sail sytiaeth lawn o ystyriaethau am gynnwys dogfennau ar wahân i'r adegau lle mae angen awdurdod y Cynghorau llawn fel rhan o'r broses statudol. Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn adnabod beth yw rol y gwahanol bwyllgorau.

### 4.2 Ffactorau a all ddylanwadu ar y broses

4.2.1 Mae'r Cynghorau o'r farn fod yr amserlen a nodwyd yn realistig ac yn un y gellir ei chyflawni. Gwneir pob ymdrech i gadw at yr amserlen honno. Er hynny, adnabwyd rhai materion lle mae yna risg a allai arwain at wyriad oddi wrth yr amserlen a nodwyd yn y CC yma. Ceir mwy o fanylion am y risgiau a'r camau a fwriedir eu cymryd er mwyn cwrdd/ lleihau'r risgiau yma yn Atodiad 6.

DRAFT

## RHAN 5: Monitro ac Adolygu

### 5.1 Monitro ac adolygu'n erbyn y CC

5.1.1 Bydd Bwrdd Prosiect y CDLl ar y Cyd yn monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y CC trwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd, er mwyn sicrhau bod nodau'r CC yn cael eu cyflawni'n unol â'r amserlen a gynigiwyd. Mae'r achosion lle gallai fod angen adolygu a newid y CC yn cynnwys y canlynol:

- Os yw'r broses gryn dipyn ar ei hôl hi o ran yr amserlen (3 mis)
- Os oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau
- Os oes newidiadau sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cynghorau
- Os bydd deddfwriaeth, rheoliadau neu arweiniad newydd yn Ewrop, y DU neu'r Lywodraeth Cymru yn gofyn bod gweithdrefnau neu dasgau newydd yn cael eu rhoi ar waith
- Os bydd unrhyw newidiadau eraill i amgylchedd yn effeithio'n faterol ar gyflwyno'r cynllun yn unol â'r CC.

5.1.2 Bydd Bwrdd Prosiect y CDLl ar y Cyd yn adrodd ar unrhyw wyriad arwyddocaol (3 mis neu fwy) oddi wrth yr amserlen i Bwyllgorau Scriwtini'r Amgylchedd y ddau Gyngor, ac yna Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn/ Bwrdd Cyngor Gwynedd/ Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, yn ei gyfiawnhau ac yn argymell camau priodol.

5.1.3 Os bydd y Cynghorau'n nodi angen am adolygu'r CC bydd angen trafod eilwaith gyda'r cyrff ymgynghori penodol a cheisio cytundeb gyda Llywodraeth Cymru yn unol â Rheoliadau'r CDLl.

### 5.2 Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB)

5.2.1 Wedi derbyn y cynllun, bydd y Cynghorau'n cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar y CDLl ar y Cyd a'r AC/AAS. Yn unol â'r arweiniad yng Nghynllun Datblygu Lleol Cymru (2005), bydd yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill - 31 Mawrth bob blwyddyn, ac yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref yr un flwyddyn. Bydd yr AMB ar gael i'r cyhoedd ei archwilio a chyflwyno sylwadau arno. Bydd yr AMB hefyd yn asesu pa mor effeithiol yw gweithrediad polisïau a chynigion y cynllun. Os nad yw polisi yn cael ei weithredu, bydd y Cynghorau'n egluro'r rhesymau am hyn ac yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau ei weithrediad ac unrhyw fwriad i newid y CDLl ar y Cyd er mwyn disodli neu addasu'r polisi.

5.2.2 Yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, bydd y Cynghorau'n ceisio integreiddio'i ddull o fonitro'r cynllun gyda'u strategaethau a chynlluniau

eraill, yn enwedig Mônitro/adolygu'r Cynlluniau Cymunedol. Lle bo amcanion y CDLl ar y Cyd yn gydnaws â'r rheini mewn strategaethau eraill bydd y Mônitro'n amlygu dangosyddion a thargedau cyffredin.

### 5.3 Adolygu'r CDLl ar y Cyd

5.3.1 Wedi mabwysiadu'r cynllun, mae'r Cynghorau'n bwriadu cynnal adolygiad llawn o'r CDLl ar y Cyd o leiaf unwaith bob pedair blynedd, er y bydd yr amlder a'r amseru'n dibynnu ar y canfyddiadau yn yr AMB/amgylchiadau lleol. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ail ystyried 'cadernid' y cynllun, ynghyd ag ail asesiad o'r asesiad cynaladwyedd a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a bydd yn nodi a oes angen addasu'r cynllun. Os bydd angen newid y cynllun, bydd y broses a ddilynir i wneud hynny yr un fath ag ar gyfer paratoi'r cynllun.

DRAFFT

## ADRAN B – CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU

### RHAN 6 – Cwmpas y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

### 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae Rheoliadau'r CDLl yn gofyn bod y Cynghorau'n gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid a'r gymuned yn fuan yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd ac ar hyd y broses. Diffinnir y prif egwyddorion sy'n sail ar gyfer cysylltu â'r gymuned ym mhroses y CDLl ar y Cyd yn 'CDLl Cymru' (2005) fel a ganlyn:

- Creu amgylchiadau sy'n caniatáu cyfranogiad cynnar ac adborth ar adeg pan fo modd i bobl weld bod cyfle i ddylanwadu ar y Cynllun;
- Annog ymrwymiad yr holl gyfranogwyr i drafodaeth agored a gonest ar ddewisiadau datblygu ymarferol eraill wrth chwilio am gonsensws; a
- Chydnabod yr angen am fabwysiadu dulliau o gynnwys y gymuned, yn cynnwys busnesau, gan geisio barn y rheiny na fyddent fel arfer yn chwarae rhan.

### 6.2 Amcanion ac egwyddorion y CCC

6.2.1 Pwrpas cyfranogiad cyhoeddus yw cael ystod eang o gymunedau, unigolion sydd a diddordeb a chyrff ymgynghorol penodol yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am gynnwys y CDLl ar y Cyd. Gwneir hynny trwy annog trafodaeth a rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod cynnwys cymunedau ym mhroses y CDLl ar y Cyd yn gynnar yn hanfodol i sicrhau perchnogaeth leol a chyfreithlondeb polisïau a fydd yn pennu datblygiad yr ardal i'r dyfodol. Dylai'r dull hwn leihau'r amser a gymerir i fabwysiadu'r cynllun trwy leihau nifer y gwrthwynebiadau i bolisïau yn y CDLl ar y Cyd adnau ac felly leihau'r amser a dreulir yng nghyfnodau diweddarach y broses o baratoi'r cynllun. Cynorthwyir y broses o greu consensws trwy sefydlu a rhannu sylfaen gyffredin o wybodaeth ar gyfer y materion allweddol o ddechrau'r broses

6.2.2 Bydd y CCC yn darparu dealltwriaeth o'r canlynol:

- Nodweddion y cymunedau yn ardal y CDLl ar y Cyd – fe roddwyd blas o broffil y boblogaeth yr ardal yn rhan 2 o'r CC;
- Y cyfnodau pryd y gall cymunedau fod yn rhan o'r broses ac i ba raddau;
- Yr ystod o ddulliau a'r technegau posib a ddefnyddir i sicrhau y gall cymunedau gymryd rhan yn y broses.

6.2.3 Mae'r egwyddorion a welir yn fframweithiau ymgynghori a chyfathrebu cyhoeddus y Cynghorau, e.e. 'Strategaeth Cyfathrebu Cyhoeddus Cyngor Gwynedd' (2009 – 2012, 'Strategaeth Gyfranogi Gwynedd' a

DRAFT

luniwyd Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, Fframwaith Ymgynghori Cymunedol Cyngor Sir Ynys Môn a Phrosiect Cynwys Gwynedd a Môn yn gosod y cyd-destun ar gyfer hwyluso ymglymiad y cymunedau yng ngwaith paratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae'r rhan nesaf yn cyfeirio at yr egwyddorion ac yn eu perthnasu i'r broses paratoi'r CDLl ar y Cyd:

**Amcanion ar gyfer Cyfranogiad Cymunedol**

| | |
|---|---|
| **Gallu cael gafael mewn gwybodaeth** | Er mwyn i gymunedau a budd-ddeiliaid allu gwneud dewisiadau cywir a deall cyd-destun y CDLl ar y Cyd, fe fydd gwybodaeth briodol yn cael ei ddarparu'n amserol, ac ar ffurf hawdd i'w gael a dealladwy. |
| **Cymryd rhan yn fuan** | Sicrhau bod cymunedau a budd-ddeiliaid yn cael pob cyfle i gymryd rhan a chyfranogi o'r cam cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Byddwn yn annog cyfraniadau ar yr adegau yn ystod gwaith paratoi'r CDLl ar y Cyd pryd y gall syniadau ddylanwadu orau ar y broses. |
| **Addasrwydd yr wybodaeth** | Bydd yr wybodaeth a fydd ar gael yn annog ymglymiad a chyfranogiad drwy gydol y broses ac fe fydd yn addas a pherthnasol i bob grwp penodol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth clir a anghenion a phrofiad y cymunedau a'r budd-ddeiliaid |
| **Adborth rheolaidd** | Darparu adborth rheoliadd fel y gall y cymunedau a'r budd-ddeiliaid weld sut fydd syniadau'n datblygu neu wybod pam nad all syniadau gael eu datblygu'n mhellach. |
| **Trylowyder** | Bod yn glir o'r cychwyn ynglyn a phwy fydd yn cymryd rhan a phryd yn ogystal a'u rol yn ystod pob cam. |
| **Rhannu gwybodaeth** | Sicrhau y bydd cyfraniadau gan gymunedau yn cael eu bwydo i waith ar gynlluniau a strategaethau allweddol eraill. |

**Tabl 7: Egwyddorion cyfranogiad cyhoeddus**

## 6.3 Gan bwy fyddwn yn disgwyl cael mewnbwn?

6.3.1 Byddwn yn canolbwyntio ar gael mewnbwn gan y canlynol:

DRAFT

**Y Cyhoedd,** sef aelodau unigol sydd yn byw, gweithio neu aros yn ardal y CDLl ar y Cyd. Un o amcanion y system CDLl ar y Cyd newydd yw cysylltu gydag aelodau o'r gymuned na fyddai fel arfer yn cymryd rhan yn y broses cynllunio. Mae'r grwpiau anodd eu cyrraedd yma'n gallu cynnwys, er enghraifft, pobl ifanc, yr henoed, Sipsiwn a Theithwyr, unigolion anabl ac unigolion sy'n dioddef oherwydd amddifadedd economiadd a chymdeithasol. Mae dadansoddiad o broffil a nodweddion y boblogaeth leol yn dangos mai'r grwpiau yma yw'r rhai sydd angen eu targedau ar adegau allweddol yn ystod y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Bydd gan partneriaethau presennol rol i chwarae i gyrraedd rhai o'r rhain, e.e. Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Fe fydd gan rhai o'r cyrff ymgynghori cyffredinol a gyfeirir ato isod le i chwarae hefyd.

**Busnesau, tirfeddianwyr, datblygwyr a'u asiantau**: Bydd gan ambell gorff ymgynghori cyffredinol (gweler isod) rol i'w chwarae i gyrraedd rhai yn y gymuned fusnes, tirfeddianwyr a datblygwyr. Fe fydd cyfle i dirfeddianwyr a darpar ddatblygwyr a'u hasiantau gyflwyno syniadau am dir a allai fod ar gael i'w ddatblygu yn fuan yn y broses drwy gofnodi gwybodaeth ar y **Gofrestr o Safleoedd Posib** (gweler isod).

**Cyrff ymgynghori cyffredinol:** sef grwpiau & mudiadau sydd gan ddiddordeb penodol yn yr ardal o ran, e.e. cyrff sy'n cynrychioli buddianau gwahanol grwpiau hiliol neu ethnig; cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n cynnal busnes yn ardal y CDLl ar y Cyd; cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r diwylliant Cymreig yn yr ardal. Mae rhestr o'r rhain i'w weld yn Atodiad 7.

**Cyrff ymgynghori penodol,** sef y rhai mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori a hwy, e.e. Llywodraeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad, Cynghorau Cymuned a Thref/ Dinas ac awdurdodau cyfagos. Mae rhestr o'r rhain i'w weld yn Atodiad 8

## 6.4 Pryd fydd y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan yn y broses?

6.4.1 Mae'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd i'w weld yn Atodiad 3. Mae yna wybodaeth yno hefyd am y cyfleon a fydd ar gael i'r cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol gymryd rhan yn y broses. Mae yna 2 gyfnod nodedig, sef y cyfnod cyfranogi a'r cyfnod ymgynghori:

**Cyfnod cyfranogiad cyhoeddus**

6.4.2 Mae'r cyfnod yma'n digwydd yn bennaf yn fuan yn y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd (i fyny hyd at Gorffennaf 2012). Er bydd unrhyw drafodaethau yn seiliedig ar strwythur clir, fe fydd y cyfnod yma'n llai

DRAFT

ffurfiol ac yn anelu i geisio cael consensws ar faterion pwysig a strategol. Yn ystod y cyfnod yma anelir i gael cytyndeb ar:

- Y prif faterion gofodol a chynaliadwy sy'n wynebu ardal y CDLl ar y Cyd;
- Gweledigaeth y gymuned ar ddyfodol gofodol yr ardal;
- Yr amcanion cynllunio defnydd tir ar gyfer gwireddu'r weledigaeth yma;
- Y strategaeth a ffefrir (ar ol edrych ar sawl opsiwn amrywiol) ar gyfer graddfa a dosbarthiad gofodol datblygiad newydd yn y dyfodol.

**Cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus ac ymglymiad ffurfiol**

6.4.3 Pan ddewisir y strategaeth mae'n ffafrio ar ol cyfranogiad y cymunedau a budd-ddeiliaid allweddol, bydd cyfnod mwy ffurfiol yn cychwyn sy'n golygu cyfnodau o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae'r Rheoliadau yn dweud faint o amser ddylid ei neilltuo ar gyfer hynny. Bydd cyfle i unrhyw un wneud sylwadau ysgrifenedig am y dogfennau a fydd ar gael i'w gweld a bydd cofnod ffurfiol yn cael ei wneud o'r sylwadau hynny. Ar ol i'r sylwadau gael eu hystyried bydd y gwaith o roi'r CDLl ar y Cyd llawn ar ffurf drafft (y CDLl ar y Cyd Adnau) yn digwydd, a all olygu cysylltu'n ffurfiol a mudiadau, sefydliadau neu bartneriaid i gael gwybodaeth neu arweiniad arbenigol. Bydd y CDLl ar y Cyd Adnau ar gael i'w weld am gyfnod ffurfiol o 6 wythnos pryd gellir cyflwyno sylwadau i'r Cynghorau am ei gynnwys. Os derbynnir sylwadau a fydd yn cynnig safleoedd na chafodd eu cynnwys yn y CDLl ar y Cyd Adnau yna fe fydd yna gyfnod pellach o ymgynghori cyhoeddus. Fe all gwrthwynebwyr i'r CDLl ar y Cyd Adnau gyflwyno eu hachos i Arolygydd anibynnol.

**Asesiad Cynaladwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC)**

6.4.4 Bydd rhaid i bob cam o'r broses CDLl ar y Cyd fod yn destun AC. Mae AC yn broses dechnegol ond fe roddir cyfleon i bobl sydd a diddordeb ynddo i gyflwyno sylwadau. Un darn o waith a fydd angen ei wneud yn fuan yn y broses yma fydd adnabod beth yw'r sail dystiolaeth am nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Bydd y sail dystiolaeth yma a gwybodaeth arall yn ffurfio rhan o Adroddiad Sgopio. Bydd yr Adroddiad yma yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

## 6.5 Dulliau o Gysylltu, Ymgynghori a Chyfranogi

6.5.1 Defnyddir sawl dull i hwyluso ymglymiad budd-ddeiliaid a chymunedau ar hyd y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae'n bwysig bod y technegau a ddefnyddir yn addas at y diben yn achos gwahanol gyfnodau paratoi'r CDLl ar y Cyd ac ar gyfer grwpiau gwahanol. Dyma

DRAFT

restr o'r mathau o ddulliau cysylltu ac ymgynghori roddir ystyriaeth i'w defnyddio:

- Datganiadau i'r wasg
- Erthyglau yn 'Newyddion Gwynedd' a 'Newyddion Mon'
- Gwefan y Cynghorau – bydd rhan penodol o'r wefan yn cael ei neilltuo ar gyfer cadw newyddion am y CDLl ar y Cyd (www.gwynedd.gov.uk neu www.anglesey.gov.uk )
- Newyddlen "Cyswllt", y mewnrwyd, e-fwletinau staff - mae dros 10,000 o unigolion yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, ac mae canran uchel iawn o'r gweithwyr hyn, eu teuluoedd a'u cyfeillion hefyd yn byw yn ardal y CDLl ar y Cyd.
- Derbynfeydd ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau ym Mangor, Caernarfon, Dolgellau, Llangefni a Phwllheli, swyddfeydd talu, llyfrgelloedd cyhoeddus
- Defnydd o ddigwyddiadau / cyfarfodydd sy'n bodoli yn barod e.e. grwpiau ieuenctid
- Cyswllt uniongyrchol (trwy lythyr / e-bost)
- Hysbysebion mewn papurau newydd lleol
- Papurau Bro
- Negeseuon testun a/neu ddefnydd o safleoedd rhwydwaith cymdeithasol (e.e. "facebook")
- Cynnal gweithdai/ cyfarfodydd agored

6.5.2 Yn ogystal a'r uchod mae'r Cynghorau'n ymroddedig i ddefnyddio rhwydweithiau a phartneriaethau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys:

- Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd
- Byrddau Gwasanaeth Lleol Môn a Gwynedd
- Partneriaeth Economaidd Gwynedd
- Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd
- Partneriaeth Tai Gwynedd
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
- Partneriaethau Iechyd, Gofal a Lles Gwynedd
- Fforwm Cynllunio Sir Fôn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau ffocws sy'n ymwneud a materion cynllunio defnydd tir
- Fforwm Môn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Adfywio Economaidd, Partneriaeth Adfywio Ardal, Partneriaeth Trosedd ac Anhrefn, Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Partneriaeth Strategaeth Iechyd, Gofal a Lles
- Fforwm Amgylchedd Môn

**Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl ar y Cyd**

6.5.3 Bydd Grwp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl ar y Cyd (GRhA) yn cael ei sefydlu i gynorthwyo gyda pharatoi'r cynllun, a bydd yn fforwm ar gyfer

DRAFT

trafodaethau adeiladol. Bydd y GRhA yn cynnwys croestoriad o gynrychiolwyr sydd gan ddiddordeb arwyddocaol yn nyfodol datblygu ardal y CDLl ar y Cyd. Rhestrir aelodau posib y GRhA yn Atodiad 9 - gall y rhain newid wrth i'r gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd symud yn ei flaen. Bydd aelodau o'r GRhA yn chwarae rhan bwysig yng nghyfnodau allweddol gwaith paratoi'r cynllun. Byddant yn helpu i nodi strategaethau ac opsiynau eraill a'u hasesu wrth i'r cynllun symud yn ei flaen.

**Paneli Dinasyddion ar gyfer Môn a Gwynedd**

6.5.4 Mae Cyngor Gwynedd wedi sefyldlu Panel Dinasyddion ac mae Cyngor Mon yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu un. Byddant yn fodd i ymchwilio i farn croestoriad o boblogaeth Ynys Môn a Gwynedd. Fe allai'r Paneli ffurfio 'grŵp rheoli' defnyddiol arall. Fe ymgynghorir â hwy ar adegau pwysig wrth baratoi'r CDLl ar y Cyd, ac yn arbennig yn y cyfnodau cynnar o nodi materion ac ystyried dewisiadau eraill.

## 6.6 Cysylltiadau â Chynllun Gofodol Cymru a Gwaith ar y Cyd

6.6.1 Wrth baratoi'r CDLl ar y Cyd, mae'n bwysig bod y Cynghorau'n gwbl ymwybodol o gynigion a datblygiadau mewn awdurdodau cymdogol a'r tu hwnt a allai effeithio ar ardal y CDLl ar y Cyd. Mae ystod o fforymau eisoes yn bodoli, megis gweithgorau Cynllun Gofodol Cymru, Grŵp Swyddogion Polisi Cynllunio Gogledd Cymru, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Bydd perthynas waith agos yn cael ei feithrin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a Chynghorau Conwy, Ceredigion, Dinbych a Phowys trwy raglenni rheolaidd o gyfarfodydd.

## 6.7 Ymglymiad Cynghorwyr

6.7.1 Bydd pob Cynghorydd yn derbyn gwybodaeth ar adegau pwysig drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, er enghraifft: trafodaeth ar y weledigaeth; nodau ac amcanion strategol ar gyfer y CDLl ar y Cyd; ystyriaeth o'r strategaeth a ffafrir – sef y camau pwysig cyntaf; ac yn nes ymlaen pan geir trafodaethau ar faterion penodol o ran safleoedd ac aneddiadau. Bydd gan y Cynghorwyr hefyd rôl bwysig oherwydd eu gwybodaeth leol i weithredu fel "hyrwyddwyr" lleol, er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y cymunedau ac fellly hwyluso'r broses o lunio'r CDLl ar y Cyd. Bydd cyfraniadau'r Cynghorwyr yn cael eu harwain gan God Ymddygiad Aelodau a'r Pwyllgor Safonau er mwyn atal unrhyw ddylanwadu ar rôl y Cynghorwyr o wneud argymhellion a phenderfyniadau yn y pwyllgorau perthnasol.

6.7.2 Ar adegau allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi'r CDLl ar y Cyd a'r Adroddiad Cynaladwyedd, cyflwynir adroddiadau i Pwyllgor Scriwtini'r Amgylchedd (Môn), Pwyllgor Craffu Amgylchedd Cyngor Gwynedd,

DRAFT

Panel CDLl ar y Cyd (Gwynedd a Môn), Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn), Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Cyngor Gwynedd, ac i'r Cyngor Llawn (pryd fydd angen penderfyniad corfforaethol).

## 6.8 Ymglymiad swyddogion y Cyngor

6.8.1 Bydd ymgynghori gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn allweddol drwy gydol y cyfnod paratoi'r CDLl ar y Cyd a'r AC. Mae gan Cyngor Gwynedd, er enghraifft, Wasanaeth Cyfeiriad Strategol sy'n cynnwys swyddogion sy'n ymwneud a sawl maes allweddol. Defnyddir cyfarfodydd y Gwasanaeth yma ynghyd a chyfarfodydd grwpiau cyfredol eraill ar lefel swyddogion, e.e. Fforwm Uwch Reolwyr, a grwpiau eraill sy'n ymdrin a materion pynciol, e.e. tai, gwastraff, a materion sy'n ymwneud ag ardaloedd penodol i gyflwyno a thrafod materion y CDLl ar y Cyd. Rhoddir gwahoddiad hefyd (gweler 2.5.2 uchod) i swyddogion perthnasol i roi tystiolaeth i Banel y CDLl ar y Cyd a thrafod materion perthnasol gydag aelodau'r Panel.

## 6.9 Argaeledd Dogfennau ac Adborth

6.9.1 Bydd dogfennau ymgynghori ar gael yn helaeth er mwyn annog a sicrhau cysylltiadau effeithiol ar hyd proses y CDLl ar y Cyd. Byddant yn cael eu darparu i'r ymgyngoreion a'u cyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.gov.uk neu www.anglesey.gov.uk ) a thrwy e-bost. Bydd copïau papur ar gael hefyd yn y mannau canlynol:

- Prif swyddfeydd y Cyngor ym Mangor, Caernarfon, Llangefni, Pwllheli a Dolgellau
- Llyfrgelloedd cyhoeddus yn Ynys Môn a Gwynedd

6.9.2 Bydd copïau papur ar gael i'w prynu am bris sy'n talu am gostau gweinyddol y Cynghorau. Bydd adroddiadau a nodiadau cyfarfodydd y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol, Panel y CDLl ar y Cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Cyngor Gwynedd, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a drefnir yn ystod y broses yn cael eu cyhoeddi'n electroneg ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.gov.uk neu www.anglesey.gov.uk )

6.9.3 Rhoddir ystyriaeth lawn i anghenion unigolion anabl er mwyn sicrhau y gallant gael mynediad i wybodaeth. Pryd bynnag y bydd hi'n ymarferol gwneud hynny fe fydd copiau print mawr a/neu glywedol o ddogfennau ar gael, pan wneir cais.

## 6.10 Defnyddio'r iaith Gymraeg ac ieithoedd eraill

6.10.1 Bydd paratoi'r CDLl ar y Cyd, y cysylltu a'r ymgynghori yn cydymffurfio â chynlluniau iaith Gymraeg y Cynghorau. Lle bynnag y bo modd, bydd

DRAFT

dogfennau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, er y bydd yr angen am eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn cael ei adolygu yn achos dogfennau technegol eu natur, sydd o ddiddordeb cyfyngedig. Pryd bynnag y bydd hi'n ymarferol gwneud hynny fe fydd dogfennau mewn ieithoedd eraill ar agel, pan wneir cais.

## 6.11 Beth fydd yn ddisgwyliedig gan y cymunedau a'r budd-ddeiliaid allweddol?

6.11.1 Er mwyn sicrhau bod pawb yn chwarae rhan lawn ar hyd proses y CDLl ar y Cyd bydd yn bwysig iddynt ystyried y canlynol:

- Eu bod yn ymateb i ohebiaeth o fewn terfyn amser priodol, gan ddilyn unrhyw weithdrefn benodol
- Deall nad all y CDLl ar y Cyd ymdrin a phob dim a chodi materion y gall y CDLl ar y Cyd ymdrin yn gyfreithlon â hwy
- Ymrwymo i'r broses trwy fod yn bresennol, cyfrannu a helpu i greu consenswS
- Nodi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth a ddarparwyd / yn y sylfaen o dystiolaeth
- Adnabod  a chyflwyno manylion priodol am safleoedd a gynigir yn amserol
- Dilyn canllawiau a gweithdrefnau perthnasol
- Rhannu/darparu gwybodaeth yn ôl y galw
- Deall bod Adroddiad yr Arolygydd yn rhwymol ac na ellir apelio yn erbyn argymhellion yr Arolygydd
- Darparu manylion cyswllt fel bod y Cyngor yn gallu rhannu gwybodaeth a rhannu ymatebion

## 6.12 Y Gofrestr o Safleoedd Posib

6.12.1 Bydd Cofrestr o Safleoedd Posib yn cael ei chreu'n gynnar yn y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd. Gwahoddir awgrymiadau ar gyfer safleoedd posib i'w datblygu (e.e. ar gyfer tai, busnes, siopau) trwy hysbysebu yn y wasg leol ac ar wefan y Cynghorau (www.gwynedd.gov.uk neu www.anglesey.gov.uk ). Gall unrhyw un awgrymu safle, ond disgwylir i awgrymiadau gael eu cefnogi gan wybodaeth sy'n dangos pam mae'r safle'n addas. Bydd arweiniad yn cael ei roi ynglyn a'r math o wybodaeth a fydd ei angen ar wefan y Cynghorau.

6.12.2 Bydd y Gofrestr ar gael i'w weld gan y cyhoedd (ar y wefan). Wedi ystyried y safleoedd, bydd asesiad yn cael ei gyhoeddi. Bydd y Gofrestr yma'n cyflawni swyddogaeth bwysig wrth adnabod safleoedd i'w dynodi ar gyfer datblygu ac wrth drafod dewisiadau eraill. Cyhoeddir dyddiad cau ar gyfer cyflwyno syniadau (yn y wasg leol ac ar wefan y Cynghorau). Cysylltir ag unigolion ddaru gyflwyno safleoedd posib yn ystod y broses o baratoi CDLl Mon (sydd wedi ei dynnu'n ol) i roi gwybod iddynt am y broses newydd yma o alw am safleoedd.

# Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd


DRAFFT

# Atodiad 1: Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

### Siart lif o'r broses paratoi'r Cytundeb Cyflawni

*Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Mehefin 2006*

**Ffigur 4.2: Y Cytundeb Cyflawni**



# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

## Ffeithiau a Ffigurau Strategol Allweddol

### Cymdeithasol

- bu cynnydd bychan (1.5%) yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2009;
- mae % uwch o'r boblogaeth yn 50+ oed o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, ac mae'r % yn arbennig o uchel mewn rhai wardiau arfordirol a mwy gwledig;
- mae mwy o bobl ifanc yn symud allan o'r ardal nag sy'n symud i mewn i'r ardal;
- mae'r rhagamcanion cenedlaethol ynghylch poblogaeth, ar sail 2008, yn awgrymu y bydd y boblogaeth 7,700 yn fwy erbyn 2023;
- heb fewnfudiad net cadarnhaol yn ystod cyfnod y rhagamcan, byddai'r boblogaeth yn gostwng;
- mae oddeutu 99% o'r boblogaeth yn wyn;
- mae lefelau salwch tymor hir ac anabledd dan y cyfartaledd yng Nghymru ar y cyfan, ond mae salwch tymor hir ac anabledd yn fater perthnasol mewn rhai wardiau o fewn yr ardal ac ymhlith y boblogaeth hŷn;
- yr achosion marwolaeth mwyaf cyffredin yw canserau, afiechydon coronaidd y galon ac afiechydon anadlol;
- Yn 2005/06, dywedodd 37% o boblogaeth Gwynedd eu bod nhw'n cwrdd a chanllawiau ymarfer corf yn ystod yr wythnos flaenorol, sy'n 7% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a 2% yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Gwynedd yn 2003/05
- mae'r gyfradd troseddu wedi gostwng yn raddol er 2006-07;
- y wardiau mwyaf amddifad yw Peblig, Marchog, Morawelon, Tudur a Phorthyfelin;
- roedd 44% o bob ward yng Ngwynedd a 55% o bob ward ar Ynys Môn yn fwy amddifad na'r cyfartaledd yng Nghymru;
- mae 66% o'r boblogaeth 3+ oed yn siarad Cymraeg;
- ar gyfartaledd, adeiladwyd 395 o unedau tai newydd yn flynyddol er 2001 – 02;
- mae'r rhagamcanion cenedlaethol ynghylch aelwydydd, ar sail 2008, yn cynnig rhagamcan y bydd nifer yr aelwydydd rhwng 2008 a 2033 yn cynyddu o 16.5%;
- safleoedd heb eu datblygu sy'n camliwio'r ffigyrau am argaeledd tir ar gyfer tai mewn is-ardaloedd o fewn ardal y CDLl ar y Cyd;
- bu cynnydd arwyddocaol mewn prisiau tai cyn y dirwasgiad;
- er gwaetha'r dirwasgiad, parhaodd y gymhareb fforddiadwyedd yn 7.8 a 7.6 ar Ynys Môn a Gwynedd, yn eu tro, ym mis Rhagfyr 2010, ac mae'r gymhareb yn arbennig o uchel mewn rhai wardiau arfordirol a mwy gwledig
- Mae yna gofnod da o leihad mewn damweiniau car yng Ngogledd Cymru ac mae'r rhanbarth ar y ffordd i fynd tu hwnt i dargedau Diogelwch Ffyrdd y Llywodraeth ar gyfer 2010 o'i gymharu a chyfartaledd 1994 - 98.

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Economaidd**

- mae chwe ward ymhlith y 10% o wardiau mwyaf amddifad yng Nghymru;
- yn 2008, gan Ynys Môn oedd y GYC isaf yng Nghymru, sef £11,333 y pen, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o £15, 222, ac roedd Gwynedd yn £13, 664, sydd yr 8fed isaf yng Nghymru;
- yn 2007 roedd CMC Ynys Môn yn 18,800 ewro y trigolyn, yr isaf ond un yng Nghymru, ac roedd CMC Gwynedd yn 22,000;
- mae enillion blynyddol canolrifol (£23,700) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (£24,350);
- mae gan oddeutu 14% o aelwydydd incwm aelwyd blynyddol o lai na £10,000;
- ym mis Mehefin 2010, yn gyffredinol, roedd y gyfradd gweithgarwch economaidd (73.6%) yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (72.8%), ond mae'r gyfradd gweithgarwch economaidd yn amrywio o fewn Ynys Môn a Gwynedd;
- mae nifer y bobl o oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar (21.7%) fymryn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (20.6%);
- ym mis Ionawr 2011, roedd 4% o bobl oedran gwaith yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith, sy'n hafal i'r cyfartaledd yng Nghymru;
- ym mis Ionawr 2011, roedd bron i 31% o bobl rhwng 17 - 24 yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith;
- mae'r gyfradd diweithdra'n amrywio o fewn Ynys Môn a Gwynedd;
- mae yna orddibyniaeth ar weinyddiaeth gyhoeddus, sectorau iechyd ac addysg yn ogystal â dosbarthu, gwestai a bwytai;
- mae tir/eiddo cyflogaeth wedi'u lleoli'n bennaf ar stadau diwydiannol traddodiadol neu barciau busnes, a'r rheiny wedi'u lleoli'n bennaf o fewn neu yng nghyffiniau'r prif drefi;
- mae oddeutu 23% o aelwydydd heb gar, ac yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus;
- mae yna faterion yn ymwneud â chapasiti ar hyd rhannau o'r rhwydwaith ffyrdd lleol;
- nid oes yna gyswllt cludiant cyhoeddus hwylus i brif safleoedd cyflogaeth o berfeddion cefn gwlad;
- Bangor yw'r ganolfan adwerthu fwyaf yn yr ardal (rhif 375 yn y DU), ac mae canran o wariant yn parhau i gael ei golli i ganolfannau eraill ar hyd arfordir Gogledd Cymru a thu hwnt;
- mewn rhai achosion, mae'n bosib na fydd rhwydwaith y cyflenwad dŵr lleol yn ddigonol i gwrdd â galw ychwanegol;
- mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd angen gwella gorsafoedd trin dŵr gwastraff cyfredol er mwyn cwrdd â galw ychwanegol.

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Amgylcheddol**


- mae cyfraddau ailgylchu gwastraff a chompostio wedi cynyddu;
- mae ansawdd yr aer yn dda iawn, yn gyffredinol, o'i gymharu â gweddill Cymru;
- mae gan y dirwedd leol gyfoeth amrywiol o gynefinoedd; 206 o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, 29 o warchodfeydd natur, 20 o ardaloedd cadwraeth arbennig, 8 o ardaloedd gwarchodaeth arbennig, ayb;
- mae 138 cilometr o'r arfordir wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth;
- mae 37,000 hectar wedi'u dynodi yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- mae yna 52 o ardaloedd cadwraeth, rhagor na 3600 o adeiladau rhestredig a rhagor na 400 o henebion cofrestredig;
- 1 Safle Treftadaeth y Byd, sy'n cynnwys Castell Caernarfon a Waliau'r Dref a Chastell Biwmaris.
- Mae rhwng 10% ac 20% o eiddo yn ardal y Cynllun wedi cael eu hasesu fel rhai dan fygythiad llifogydd, ac fe all hynny gynyddu yn sgil newid hinsawdd


.

DRAFT

# Atodiad 2 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

Dynodiadau amgylcheddol



# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

## Camau allweddol ym mhroses paratoi'r CDLl ar y Cyd a chyfleon cyfranogi

## Cyfnod 1: Y Cytundeb Cyflawni (Rheol 9) Pryd: Ionawr – Tachwedd 2011

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Drafftio'r Cytundeb Cyflawni (CC)<br><br>(Ionawr – Mawrth 2011) | Paratoi dogfen sy'n ddatganiad cyhoeddus o amserlen paratoi'r CDLl, a sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu. | Adrannau'r Cynghorau (e.e. Gofal Cwsmer, Strategol a Gwella)<br><br>Aelodau etholedig | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol<br><br>Pwyllgor Craffu Amgylchedd (Gwynedd) & Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol (Môn)[2]<br><br>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol<br><br>Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgorau Craffu & Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y gwefannau. | Costau argraffu a chyfieithu |
| Ymgynghori am y CC drafft (6 wythnos) | Rhoi gwybod i randdeiliaid a chymunedau bod y Cynghorau yn mynd i | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol | Llythyr a chopi o'r CC drafft i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol | Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol | Costau argraffu a phostio |

[2] Pwyllgorau Craffu

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| (Ebrill – Mai 2011) | baratoi CDLl.<br><br>Cael barn am gynnwys y CC<br><br>Adnabod y rhanddeiliaid perthnasol | Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys y cyhoedd) | Llythyr i gyrff ymgynghori cyffredinol a rhanddeiliaid eraill<br><br>Cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cynghorau (www.gwynedd.gov.uk/ www.anglesey.gov.uk )<br><br>Copiau ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau a llyfrgelloedd cyhoeddus<br><br>Hysbyseb yn y papurau lleol<br><br>Darparu ffurflen sylwadau a fydd yn cynnwys cwestiynau perthnasol | Cynnwys manylion cyswllt sylwebyddion ar fasdata'r Cynghorau am y CDLl i'w defnyddio eto<br><br>Adroddiad sy'n crynhoi'r sylwadau ac yn cyflwyno'r CC drafft diwygiedig i'r Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Y Bwrdd / Pwyllgor Gwaith<br><br>Adroddiad i'r Cynghorau llawn er mwyn cael penderfyniad i | Costau hysbyseb<br><br>Costau cyfieithu |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfle i gyflwyno sylwadau ar lein | gymeradwyo'r CC drafft diwygiedig fel dogfen i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru | |
| Gyrru'r CC Drafft Diwygiedig i Lywodraeth Cymru<br><br>(Hydref 2011) | Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru fod y Cynghorau wedi cymeradwyo'r CC drafft diwygiedig<br><br>Gofyn am gytundeb y Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Llythyr a chopi o'r CC drafft diwygiedig | Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol (os yn berthnasol) Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Y Bwrdd/ Pwyllgor Gwaith a'r Cynghorau llawn (os oes angen cyflwyno diwygiadau arwyddocaol) | Costau argraffu a phostio |
| Cyhoeddi'r CC terfynol a gytunwyd iddo | Rhoi gwybod am y CC a gymeradwywyd a lle gellir ei weld | Lywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori | Llythyr<br><br>Cyhoeddi'r ddogfen ar | Llythyr i Aelodau etholedig yn dweud bod Llywodraeth | Costau argraffu |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| gan Lywodraeth Cymru<br><br>(Tachwedd 2011) | | penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys y cyhoedd) | wefan y Cynghorau (www.gwynedd.gov.uk www.anglesey.gov.uk )<br><br>Copiau ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau a llyfrgelloedd cyhoeddus | Cymru wedi cytuno i'r CC | |

## Cyfnod 2 & 3: Cyfranogiad Cyn- Adneuo (Rheoliad 14) Pryd: Gorffennaf 2010 – Gorffennaf 2012

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu a datblygu sail dystiolaeth, sy'n cynnwys paratoi cofrestr o safleoedd | Er mwyn deall y cyd-destun, adolygu ac ychwanegu at yr wybodaeth meintiol ac ansoddol, ac adnabod y materion ar amcanion all | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cynghorau (e.e. Gwasanaeth Cyfeiriad Strategol, Gwasanaeth Tir ac | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion | Cyhoeddi papurau testun a'u cadw yn y llyfrgell sail dystiolaeth fydd mewn mannau cyhoeddus ac ar | Cynnal seminarau a chyfarfodydd<br><br>Costau argraffu |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| posib<br><br>(Gorffennaf 2010 – Gorffennaf 2012) | y CDLl ar y Cyd fynd i'r afael a hwy. | Eiddo'r Cynghorau, Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol eraill (gan gynnwys tir feddianwyr) | Seminarau/ Gweithdai cyhoeddus<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Cyswllt uniongyrchol gyda chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol amrywiol<br><br>Cyhoeddi papurau testun drafft a gwahodd sylwadau<br><br>Panel Dinasyddion<br><br>Grwp Rhanddeiliaid Allweddol<br><br>Cyhoeddi methodoleg asesu safleoedd posib<br><br>Cyhoeddi ffurflenni cyflwyno safleoedd posib, rhoi | wefan y Cynghorau.<br><br>Cyswllt uniongyrchol gyda chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol amrywiol i roi gwybod am gyhoeddiad y papurau testun.<br><br>Cyhoeddi cynigion safleoedd posib ar wefan y Cynghorau | Costau comisiynu gwaith gan ymgynghorwyr lle bo'r angen |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyhoeddusrwydd i'r cam yma a gwahodd cynigion<br><br>Cyhoeddi cofrestr safleoedd posib, a gwahodd sylwadau | | |
| Sgrinio'r CDLl<br><br>(Mawrth 2011) | Cadarnhau y bydd angen i'r CDLl ar y Cyd fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). | Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol | Cyswllt uniongyrchol gyda'r Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol | Rhoi gwybod i'r Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol am y penderfyniad.<br><br>Cyhoeddi penderfyniad ar wefan y Cynghorau | Dim |
| Datblygu Adroddiad Scopio'r AC<br><br>(Awst 2010 – Mehefin 2011) | Cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol y Rheoliadau AAS<br><br>Adnabod gwybodaeth gwaelodlin amgylcheddol am ardal y CDLl ar y Cyd | Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd<br><br>Awdurdodau cyfagos am faterion perthnasol traws-ffiniol | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Panel CDLl ar y Cyd | Cyhoeddi cofnodion y Grwp Tasg Arfarniad Cynaliadwyedd a Phanel CDLl ar wefan y Cynghorau | Costau gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr |

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adolygu cynlluniau, rhaglenni a pholisiau perthnasol<br><br>Adnabod y materion allweddol<br><br>Datblygu fframwaith y AC/ AAS, sy'n cynnwys yr amcanion cynaliadwyedd | Aelodau etholedig | | | |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)<br><br>(Chwefror – Mehefin 2011) | Cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd<br><br>Casglu tystiolaeth, adnabod materion allweddol ac effeithiau 'in-combination' traws ffiniol posib | Grwp swyddogion cynllunio a bioamrwyiaeth a chyrff ymgynghori amgylcheddol perthnasol<br><br>Awdurdodau cyfagos am faterion perthnasol traws-ffiniol | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau | Cyhoeddi casgliadau ar wefan y Cynghorau.<br><br>Rhoi gwybod i bawb gymerodd rhan amdan y casgliadau. | Costau gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr |
| Cyhoeddi'r | Cael barn gan | Y Cyhoedd | Swp-lythyru | Cyhoeddi | Costau |

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Sgopio AC ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus (cyfnod 6 wythnos)<br><br>(Gorffennaf – Awst 2011) | randdeiliaid am sgop yr AC/ AAS a'r amcanion | Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Adrannau/ Gwasanaethau'r Cynghorau | uniongyrchol (llythyr/ ebost) i godi ymwybyddiaeth<br><br>Llythyr a chopi o'r Adroddiad Sgopio i Gyrff Ymgynghori perthnasol, sy'n cynnwys y Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol.<br><br>Cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Cynghorau (www.gwynedd.gov.uk www.anglesey.gov.uk )<br><br>Copiau ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau a llyfrgelloedd cyhoeddus lleol | sylwadau a dderbyniwyd ar wefan y cyhoedd<br><br>Ystyried y sylwadau a gwneud diwygiadau priodol (os yn berthnasol)<br><br>Llythyr i bawb a gymerodd rhan i roi gwybod am gasgliadau'r ymgynghoriad | argraffu<br><br>Costau gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr |
| Nodi gweledigaeth y | Cytuno ar weledigaeth glir, sydd a | Adrannau/ Gwasanaethau'r | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion | Cyhoeddi cofnodion y Grwp | Costau gweinyddol |

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| CDLI<br><br>Nodi prif amcanion y CDLI | pherthnasedd ofodol, o ba fath o le anelir ei weld yn ardal y CDLI<br><br>Cytuno ar brif amcanion y CDLI | Cynghorau<br><br>Y cyhoedd<br><br>Panel Dinasyddion<br><br>Grwp Rhanddeiliaid allweddol y CDLI<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Fforymau cyfredol sy'n cynrychioli grwpiau allweddol yn y boblogaeth leol<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol | unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Llythyr a holiadur pwrpasol i'r Panel Dinasyddion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Seminarau Aelodau etholedig<br><br>Y Pwyllgorau Craffu<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Y Bwrdd/ Pwyllgor Gwaith | Rhanddeiliaid/ Pwyllgorau Craffu/ Panel CDLl/ Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac Y Bwrdd/ Pwyllgor Gwaith ar wefan y Cynghorau.<br><br>Cyhoeddi'r weledigaeth a'r amcanion ar wefan y Cynghorau | |
| Adnabod a phrofi opsiynau strategol a | Adnabod opsiynau ymarferol a phenderfynu ar eu cryfderau a'u | | | Cyhoeddi cofnodion y Grwp Rhanddeiliaid/ | Costau gweinyddol |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| strategaeth<br><br>(Ebrill 2011 – Mawrth 2012) | gwendidau | | | Pwyllgorau Craffu/ Panel CDLl ar y Cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac Y Bwrdd/ Pwyllgor Gwaith ar wefan y Cynghorau.<br><br>Cyhoeddi adroddiad cyfranogiad ar wefan y Cynghorau<br><br>Rhoi gwybod i bawb gymerodd ran o gasgliadau'r gwaith | |
| AC/ AAS & HRA – Asesu Opsiynau Strategol a | Sicrhau bod yr Opsiynau Strategol a Safleoedd Posib yn gyson a'r amcanion cynaliadwyedd | Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd<br><br>Grwp swyddogion | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau | Cyhoeddi adroddiad o'r asesiad ar wefan y Cynghorau | Cyhoeddi dogfen Asesiad, Costau |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Safleoedd Posib<br><br>(Ebrill 2011 – Mawrth 2012) | a gytunwyd arnynt<br><br>Sicrhau nad yw'r Opsiynau Strategol a Safleoedd Posib yn cael effaith adnwyol ar gyfanrwydd safle Natura 2000 | cynllunio a bioamrwyiaeth a chyrff ymgynghori amgylcheddol perthnasol<br><br>Awdurdodau cyfagos am faterion trawsffiniol perthnasol | | Cyhoeddi cofnodion y Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd ar wefan y Cynghorau | gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr |
| **Etholiadau Lleol Mai 2012** | | | | | |
| Paratoi Dogfen Cynigion y Dewis Strategaeth<br><br>(Ebrill – Gorffennaf 2012) | Sefydlu cyfeiriad strategol a fydd yn cyflawni'r weledigaeth.<br><br>Cadarnhau gweledigaeth ac amcanion cyffredinol y Cynghorau, yr opsiynau gofodol strategol a ystyriwyd, y strategaeth ofodol mae'n ei ddewis, a'r | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cynghorau (e.e. Gwasanaeth Cyfeiriad Strategol)<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Grwp Rhanddeiliaid allweddol y CDLl | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Y Pwyllgorau Craffu<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyhoeddi cofnodion y Grwp Rhanddeiliaid/ Pwyllgorau Craffu/ Panel CDLl ar y Cyd, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ac Y Bwrdd/ Pwyllgor Gwaith ar wefan y Cynghorau.. | Costau gweinyddol |

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | goblygiadau i ddatblygiadau, e.e. y safleoedd strategol.<br><br>Dangos, drwy gymhwyso'r profion cadernid perthnasol, fod y broses dewis strategaeth yn un cadarn.<br><br>Adnabod safleoedd sy'n gyson/ deillio o'r strategaeth a ddewiswyd | Aelodau etholedig | Y Bwrdd/ Pwyllgor Gwaith | | |
| AC/ AAS & HRA – Asesu Safleodd Strategol & safleoedd eraill<br><br>(Ebrill 2011 – Gorffennaf 2012) | Sicrhau bod yr Safleoedd Strategol a safleoedd eraill cydnabydedig yn gyson a'r amcanion cynaliadwyedd a gytunwyd arnynt<br><br>Sicrhau nad yw'r | Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd<br><br>Grwp swyddogion cynllunio a bioamrwyiaeth a chyrff ymgynghori amgylcheddol perthnasol | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau | Cyhoeddi adroddiad o'r asesiad ar wefan y Cynghorau<br><br>Cyhoeddi cofnodion y Grwp Tasg Arfarniad Cynaladwyedd ar | Cyhoeddi dogfen Asesiad, Costau gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr |

DRAFFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Safleoedd Strategol a safleoedd eraill cydnabyddedig yn cael effaith adnwyol ar gyfanrwydd safle Natura 2000 | Awdurdodau cyfagos am faterion trawsffiniol perthnasol | | wefan y Cynghorau | |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

## Cyfnod 4 & 5: Ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Cyn- Adneuo ac ymateb i'r sylwadau (Rheoliadau 15 & 16) Pryd: Medi 2012 – Medi 2013

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgyngoriad cyhoeddus Cyn- Adneuo (6 wythnos)<br><br>(Medi – Hydref 2012) | Rhoi gwybod am Ddogfen Cynigion yr Hoff Strategaeth Strategaeth<br><br>Trafod a gwahodd sylwadau am y dogfennau am gyfnod statudol o 6 wythnos | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Panel Dinasyddion<br><br>Y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ ebyst) i bawb sydd ar y basdata'r CDLl, cyrff ymgynghori cyffredinol a'r Panel Dinasyddion<br><br>Llythyr a chopi o'r Ddogfen Cynigion y Dewis Strategaeth i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyhoeddi dogfennau perthnasol, gan gynnwys crynodeb syml o'r Cynllun Cyn- Adnau, a gwybodaeth allweddol, gan gynnwys y ffurflen | Cydnabod derbyn sylwadau trwy lythyr/ ebost<br><br>Cysylltu gyda'r ymatebwyr i roi gwybod iddynt lle ellir cael gwybod am yr ymateb i'r ymgynghoriad<br><br>Cyhoeddi adroddiad am yr ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan y Cynghorau | Costau argraffu a chyfieithu<br><br>Costau postio<br><br>Costau hysbysebion<br><br>Costau paratoi a chynnal arddangosfeydd a chyfarfodydd<br><br>Costau gweinyddu |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | safonol ar gyfer sylwadau, ar wefan y Cynghorau<br><br>Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol<br><br>Dogfennau a gwybodeth berthnasol ar gael i'w craffu ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau a llyfrgelloedd cyhoeddus lleol<br><br>Y ffurflen safonol ar gyfer sylwadau ar gael mewn mannau cyhoeddus penodol.<br><br>Technegau amrywiol i godi ymwybyddiaeth, sicrhau dealltwriaeth ac ennyn trafodaeth (e.e. datganiadau i'r | | |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | wasg, arddangosfeydd mewn mannau allweddol, gweithgorau/ seminarau cyhoeddus) | | |
| Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (drafft)<br><br>(Medi – Hydref 2012) | Dangos sut y daethpwyd at y dewisidiadau a ffafrir o ystyried yr AC/ AAS<br><br>Gwahodd sylwadau am yr AC | | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ ebyst) i bawb sydd ar y basdata'r CDLI a'r cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Llythyr a chopi o'r Adroddiad AC i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyhoeddi'r Adroddiad AC ar wefan y Cynghorau<br><br>Adroddiad AC ar gael i'w craffu ym mhrif | | Costau argraffu a chyfieithu<br><br>Costau postio |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | swyddfeydd y Cynghorau ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol | | |
| Ystyried y sylwadau a dderbynnir<br><br>(Tachwedd 2012 – Mawrth 2013) | Rhoi cyfle i'r Cynghorau ystyried pob sylw gafodd ei wneud yn briodol<br><br>Adolygu a datblygu'r sail dystiolaeth ymhellach | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cynghorau<br><br>Panel Dinasyddion<br><br>Grwp Rhanddeiliaid allweddol y CDLl<br><br>Aelodau etholedig<br><br>Rhanddeiliaid perthnasol | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Llythyr a holiadur pwrpasol i'r Panel Dinasyddion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyhoeddi cofnodion y Grwp Rhanddeiliaid/ Panel CDLl ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar wefan y Cynghorau<br><br>Cyhoeddi papurau testun wedi eu diweddaru neu rai newydd (lle mae'n briodol) a'u cadw yn y llyfrgell sail tystiolaeth fydd mewn mannau cyhoeddus ac ar wefan y Cynghorau | Costau argraffu<br><br>Costau paratoi ac argraffu crynodeb gyffredinol o gasgliadau'r ymgynghoriad a chostau postio |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rhoi disgrifiad cyffredinol cryno o sut mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi effeithio ar bolisiau a chynigion y CDLl i ymatebwyr yr ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddalwyr | |
| AC/ AAS & HRA – asesu newidiadau sylweddol<br><br>(Tachwedd 2012 – Mawrth 2013) | Asesu strategaeth amgen a gynigwyd neu newidiadau i'r Hoff Strategaeth a gyhoeddwyd yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a gytunwyd iddo ac yn erbyn meini prawf y HRA<br><br>Ystyried sylwadau'r | Grwp Tasg Arfarniad Cynaliadwyedd<br><br>Grwp swyddogion cynllunio a bioamrwyiaeth a chyrff ymgynghori amgylcheddol perthnasol<br><br>Awdurdodau cyfagos am faterion | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau | Cyhoeddi diwygiad/ atodiad i'r Adroddiad o Gynaliadwyedd | Costau gweinyddol<br><br>Costau ymgynghorwr |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymgynghoriad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | trawsffiniol | | | |
| Paratoi CDLl Adnau a dogfennau cysylltiol<br><br>(Ebrill 2013 – Medi 2013) | Llunio'r fersiwn cyflawn o'r CDLl a'i gyhoeddi<br><br>Llunio'r Adroddiad Ymgynghori terfynol a'i gyhoeddi<br><br>Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol a'u cyhoeddi | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cynghorau (e.e. Gwasanaeth Cyfeiriad Strategol, Gwasanaeth Cynllunio, Gwasanaeth Cyfreithiol)<br><br>Aelodau etholedig | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Y Pwyllgorau Craffu<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgorau Craffu, Panel CDLl ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar wefan y Cynghorau | Dim |

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Cyfnod 6 & 7: Ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adneuo ac ystyried y sylwadau (Rheoliadau 17, 18 & 19) Pryd: Hydref 2013 – Mehefin 2014 (mae'r amserlen ar ol Tachwedd 2013 yn un arwyddol)**

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | ***Adnoddau (ar ben costau staff arferol)*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus am y CDLl Adnau ( 6 wythnos)<br>(Hydref – Tachwedd 2013) | Rhoi cyfle i unrhyw un weld y CDLl a chyflwyno sylwadau amdano | Llywodraeth Cymru<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Grwp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl<br><br>Panel Dinasyddion<br><br>Y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ ebyst) i bawb sydd ar y basdata'r CDLl, y Panel Dinasyddion, a'r cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Llythyr a chopi o'r CDLl Adnau a dogfennau perthnasol ynghyd a rhestr o ddogfennau eraill i Lywodraeth Cymru a chyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyhoeddi'r CDLl Adnau a phob dogfen perthnasol, | Cydnabod derbyn sylwadau trwy lythyr/ ebost<br><br>Cyhoeddi copi o bob sylw a dderbynnir yn y mannau cyhoeddus perthnasol<br><br>Rhoi manylion am y sylwadau a dderbynnir ar wefan y Cynghorau, gan nodi lle gellir gweld copi caled ohonynt.<br><br>Ymdrin a sylwadau am ddynodiadau tai yn unol a Rheoliad 20 a 21 (gweler isod) | *Costau argraffu a phostio*<br><br>*Costau hysbysebion*<br><br>*Costau gweinyddu* |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gan gynnwys crynodeb syml o'r Cynllun Adnau, a gwybodaeth allweddol, gan gynnwys ffurflen safonol ar gyfer sylwadau, ar wefan y Cynghorau<br><br>Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol<br><br>Y CDLl Adnau. dogfennau a gwybodeth berthnasol ar gael i'w craffu mewn mannau cyhoeddus penodol<br>Y ffurflen safonol ar gyfer sylwadau ar gael i'w defnyddio mewn mannau cyhoeddus penodol.<br><br>Technegau amrywiol i godi | | |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymwybyddiaeth, sicrhau dealltwriaeth ac ennyn trafodaeth (e.e. datganiadau i'r wasg, arddangosfeydd mewn mannau allweddol, gweithgorau/ seminarau cyhoeddus) | | |
| AC/ AAS – Rhoi'r Adroddiad AC trefynol ar gael i'w gweld gyda'r CDLl Adnau<br><br>(Hydref 2013 – Tachwedd 2013) | Dangos sut mae'r CDLl yn gyson a'r Fframwaith yr Arfarniad o Gynaladwyedd a gytunwyd iddo | Fel yr uchod | Fel yr uchod | Fel yr uchod | *Fel yr uchod* |
| Ystyried y sylwadau a dderbynnir<br><br>(Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014) | Rhoi cyfle i'r Cynghorau ystyried pob sylw gafodd ei wneud yn briodol<br><br>Adolygu a datblygu'r sail | Adrannau/ Gwasanaethau'r Cynghorau (e.e. Gwasanaeth Cyfeiriad Strategol, Gwasanaeth Cynllunio, | Cyswllt uniongyrchol gyda swyddogion unigol, fforymau sefydledig o swyddogion<br><br>Trafodaethau | Cyhoeddi cofnodion Panel CDLl/ Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar wefan y Cynghorau | *Costau argraffu a phostio*<br><br>*Costau gweinyddu* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | dystiolaeth ymhellach | Gwasanaeth Cyfreithiol)<br><br>Sylwebyddion (lle mae hynny'n briodol, e.e. i gael eglurhad pellach, dod i gytundeb ynglyn a materion "comMôn ground")<br><br>Aelodau etholedig | strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyhoeddi adroddiad ymgynghori yn amlinellu sut mae'r Cynghorau wedi ysytyried pob sylw a'i roi yn y mannau cyhoeddus perthnasol ac ar wefan y Cynghorau<br><br>Rhoi gwybod i'r sylwebyddion fod adroddiad ymateb ar gael i'w gweld.<br><br>Cyhoeddi papurau testun wedi eu diweddaru neu rai newydd (lle mae'n briodol) a'u cadw yn y llyfrgell sail tystiolaeth fydd mewn mannau cyhoeddus ac ar wefan y Cynghorau. | |
| AC/ AAS & HRA – asesu safleoedd newydd/ gwahanol | Asesu'r safleoedd newydd/ gwahanol yn erbyn | Grwp Tasg Arfarniad Cynaliadwyedd | Trafodaethau strwythuredig/ gweithgorau | Cwblhau'r Adroddiad AC, cyflwyno copi i | Costau gweinyddol<br><br>Costau |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (na chafodd sylw o'r blaen)<br><br>(Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014) | Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a gytunwyd iddo ac yn erbyn meini prawf y HRA | Grwp swyddogion cynllunio a bioamrwyiaeth a chyrff ymgynghori amgylcheddol perthnasol<br><br>Awdurdodau cyfagos am faterion trawsffiniol | | Banel CDLl a Bwrdd y Cynghorau<br><br>Cyhoeddi'r Adroddiad AC terfynol a'i rhoi ar wefan y Cynghorau ac mewn mannau cyhoeddus perthnasol | ymgynghorwr<br><br>Costau argraffu |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Cyfnod 8: Ymgynghori am safleoedd amgen (Rheoliad 20 & 21) Pryd: Ionawr 2014 – Mehefin 2014 (arwyddol)**

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus am safleoedd amgen (6 wythnos)<br><br>(Ionawr 2014 – Chwefror 2014) | I roi cyfle i unrhyw un gyflwyno sylwadau am (a) safleoedd amgen a gynigwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y CDLl Adnau ac/ neu (b) am awgrymiadau a gafodd eu gwneud ynglyn a safleoedd a ddynodwyd yn y Cynllun Adnau, h.y. newid neu ddileu safloedd a ddynodwyd | Panel Dinasyddion<br><br>Y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Grwp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl | Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ ebyst) i bawb sydd ar y basdata'r CDLl ac i'r Panel Dinasyddion i roi gwybod lle ellir gweld manylion am y safleoedd amgen a'r drefn i gyflwyno sylwadau amdanynt.<br><br>Llythyr a chopi o wybodaeth berthnasol am y safleoedd amgen i'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, ynghyd a manylion am y | Cyhoeddi copi o'r sylwadau a dderbynnir am y safleoedd amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori ar wefan y Cynghorau ac mewn mannau cyhoeddus perthnasol. | Costau argraffu a phostio<br><br>Costau hysbysebion<br><br>Costau gweinyddu |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | trefniadau i gyflwyno sylwadau.<br><br>Cyhoeddi'r sylwadau am y safleoedd amgen ar wefan y Cynghorau a rhoi copi ar gael i'w graffu yn mannau cyhoeddus perthnasol, ynghyd a manylion am y trefniadau i gyflwyno sylwadau amdanynt.<br><br>Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol<br><br>Technegau amrywiol i godi ymwybyddiaeth, sicrhau dealltwriaeth ac ennyn trafodaeth (e.e. datganiadau i'r wasg) | | |
| Ystyried y sylwadau | I ystyried os oes | Grwp Rhanddeiliaid | Trafodaethau | Cyhoeddi cofnodion | Costau argraffu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori uchod am y safleoedd amgen<br><br>(Mawrth 2014 – Mehefin 2014) | angen argymell gwneud newidiadau i'r CDLl Adnau a chynnwys manylion am hynny yn yr Adroddiad Ymgynghori terfynol<br><br>(Nodyn: tra mae'n ofynnol i'r Cynghorau godi ymwybyddiaeth a gwneud asesiad o'r safleoedd newydd/ gwahanol gaiff eu hawgrymu gan sylwebyddion yn ystod y cyfnod ymgynghori am y CDU Adnau, yr Arolygydd a fydd yn penderfynu os y caiff unrhyw un neu'r cwbwl o'r safleodd amgen yma eu cynnwys yn y Cynllun mabwysiedig.) | Allweddol CDLl<br><br>Aelodau Etholedig | strwythuredig/ gweithgorau<br><br>Panel CDLl ar y Cyd<br><br>Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol/ Panel CDLl ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar wefan y Cynghorau.<br><br>Cyhoeddi adroddiad sy'n nodi beth yw argymhellion y Cynghorau a'i roi ar wefan y Cynghorau ac mewn mannau cyhoeddus perthnasol. | Costau gweinyddu |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|

**Cyfnod 9: Dewis newidiadau penodol (Cylch lythyr gan Lywodraeth Cymru – CL-01-2009 (APAA-09-33-004)) Pryd: Gorffennaf – Awst 2014**

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Os bydd angen – cyfnod ymgynghori 6 wythnos ar yr “Atodiad” i’r Cynllun Datblygu Lleol a’i ddogfennau gwerthuso cysylltiedig safleoedd. | Rhoi gwybod i’r holl randdeiliaid fod y Cynghorau yn awgrymu bod angen diwygio’r CDLl ar y Cyd Adnau a gofyn am sylwadau a gaiff eu cyflwyno i Arolygydd yr Archwiliad. | Panel Dinasyddion<br><br>Y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Grwp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl | Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol<br><br>Cyhoeddi datganiad ar wefan y Cynghorau.<br><br>Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ ebyst) i bawb sydd ar y basdata’r CDLl ac i’r Panel Dinasyddion i roi gwybod lle ellir gweld y ddogfen.<br><br>Llythyr a chopi o wybodaeth am y newidiadau penodol | Dim yn berthnasol | Costau hysbysebion<br><br>Costau argraffu<br><br>Costau gweinyddu |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | i'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol, ynghyd a manylion am y trefniadau i gyflwyno sylwadau.<br><br>Cyhoeddi'r sylwadau am y newidiadau penodol ar wefan y Cynghorau a rhoi copi ar gael i'w graffu yn mannau cyhoeddus perthnasol. | | |

DRAFT

## Cyfnod 10: Cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (Rheoliad 22) Pryd: Tachwedd 2014 (arwyddol)

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r CDLl a'r gyfres lawn o ddogfennau | Rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid fod y Cynghorau wedi | Y sylwebyddion i gyd a phob rhanddeiliad arall | Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol | Dim yn berthnasol | Costau hysbysebion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cysylltiol (gan gynnwys yr Adroddiad AC) i Lywodraeth Cymru | cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru | sydd wedi datgan ei fod am gael gwybod am ddatblygiad y CDLl | Cyhoeddi datganiad ar wefan y Cynghorau am gyflwyniad y CDLl ar gyfer Archwiliad.<br><br>Swp-lythyru uniongyrchol (llythyrau/ ebyst) i'r sylwebyddion a'r rhanddeiliaid eraill sydd wedi datgan eu bod am gael gwybod am ddatblygiad y CDLl<br><br>Rhoi copi o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar wefan y Cynghorau ac yn y mannau cyhoeddus perthnasol | | Costau argraffu<br><br>Costau gweinyddu |

**Cyfnod 11: Yr Archwiliad Cyhoeddus (Rheoliad 23) Pryd: Ebrill 2015 (arwyddol)**

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | **Adnoddau (ar ben costau staff arferol)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddi rhybudd am yr Archwiliad Cyhoeddus (o leiaf 6 wythnos cyn cychwyn yr Archwiliad) | Rhoi gwybod i randdeiliaid bod yr Archwiliad am ddigwydd | Pob un o'r sylwebyddion ac unrhyw un arall sydd wedi datgan diddordeb yn yr Archwiliad/ y broses CDLl | Llythyr/ ebost i'r sylwebyddion a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn rhoi manylion am yr Archwiliad.<br><br>Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol.<br><br>Cyhoeddi manylion am yr Archwiliad ar wefan y Cynghorau.<br><br>Rhoi posteri yn y mannau cyhoeddus perthnasol sy'n rhoi manylion am yr Archwiliad. | Dim yn berthnasol | Costau postio<br><br>Costau hysbysebion<br><br>Costau argraffu |
| Cyfarfod cyn-Archwiliad | I roi cyfle i'r Arolygydd roi gwybod am drefniadau'r | Pob un o'r sylwebyddion ac unrhyw un arall sydd wedi datgan | Llythyr/ ebost i'r sylwebyddion a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn | Dim yn berthnasol | Costau postio<br><br>Costau cynnal y cyfarfod (e.e. |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Archwiliad a gofyn am wybodaeth ychwanegol (os oes angen hynny) | diddordeb yn yr Archwiliad/ y broses CDLl | rhoi manylion am yr Archwiliad.<br><br>Cyhoeddi manylion am yr Cyfarfod cyn-Archwiliad ar wefan y Cynghorau<br><br>Technegau priodol eraill i godi ymwybyddiaeth, a sicrhau dealltwriaeth (e.e. datganiadau i'r wasg) | | cyfieithu ar y phryd, ffioedd, Swyddog Rhaglen) |
| Archwiliad o'r CDLl | Cael barn anibynnol am gadernid y CDLl a'r sylwadau a dderbyniwyd amdano. | Pob un o'r sylwebyddion sydd heb dynnu ei wrthynebiad yn ol. | Sesiynau trafod o gwmpas y bwrdd.<br><br>Gwrandawiadau.<br><br>Gwrandawiadau ffurfiol<br><br>(Yr Arolygydd a fydd yn penderfynu ar y dull gorau i gyflwyno tystiolaeth llafar) | Adroddiad yr Archwiliad | Costau cynnal yr Archwiliad (e.e. cyfieithu ar y phryd, ffioedd, Swyddog Rhaglen, gweinyddu'r Archwiliad)<br><br>Costau gweinyddu |

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Datganiadau ysgrifenedig ffurfiol | | |

## Cyfnod 12: Cyhoeddi Adroddiad yr Archwiliad Cyhoeddus (Rheoliad 24) Pryd: Ionawr 2016 (arwyddol)

| **Pa gam a phryd?** | **Pwrpas** | **Cyfranogiad gan bwy?** | **Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori** | **Dull o adrodd yn ol** | ***Adnoddau (ar ben costau staff arferol)*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyn/ cyhoeddi Adroddiad yr Archwiliad Cyhoeddus | Rhoi gwybod am benderfyniadau Arolygydd yr Archwiliad Cyheoddus | Aelodau etholedig<br><br>Cyrff ymgynghori penodol<br><br>Cyrff ymgynghori cyffredinol<br><br>Grwp Rhanddeiliaid Allweddol y CDLl<br><br>Panel Dinasyddion<br><br>Pob un o'r sylwebyddion, y cyhoedd a phawb arall sydd gan ddiddordeb | Llythyr/ ebost i'r sylwebyddion a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn rhoi gwybod am fodolaeth yr Adroddiad a lle gellir ei gweld ac unrhyw fanylion perthnasol eraill.<br><br>Technegau priodol eraill i godi ymwybyddiaeth, a sicrhau dealltwriaeth (e.e. datganiadau i'r wasg) | Dim yn berthnasol | *Costau argraffu*<br><br>*Costau gweinyddu* |

DRAFT

## Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
## Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhoi'r Adroddiad ar gael i'w archwilio ar wefan y Cynghorau ac yn y mannau cyhoeddus perthnasol. | | |
| Paratoi ymateb y Cynghorau i Adroddiad yr Archwiliad | Codi ymwybyddiaeth am unrhyw newidiadau arwyddocaol fydd angen eu gwneud er mwyn cydymffurfio gydag Adroddiad yr Archwiliad<br><br>(Nodyn: ni fydd gan y Cynghorau na'r rhanddeiliaid hawl i wrthwynebu unrhyw newidiadau fydd yr Arolygydd am eu gweld) | Aelodau etholedig | Adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn amlygu unrhyw newidiadau arwyddocaol.<br><br>Adroddiad i'r Cynghorau llawn i gael penderfyniad i fabwysiadu'r CDLl | Cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Cynghorau llawn ar wefan y Cynghorau. | |

**Cyfnod 13: Mabwysiadu'r CDLl (Rheoliad 25) Pryd: Ebrill 2016 (arwyddol)**

DRAFT

# Atodiad 3 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Pa gam a phryd? | Pwrpas | Cyfranogiad gan bwy? | Sut? Dull cael cyfranogiad/ ymgynghori | Dull o adrodd yn ol | Adnoddau (ar ben costau staff arferol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mabwysiadu'r CDLl yn ffurfiol fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (o fewn 8 wythnos o dderbyn Adroddiad yr Archwiliad) | Rhoi gwybod i randdeiliaid a'r cyhoedd o'r penderfyniad i fabwysiadu'r CDLl | Aelodau etholedig<br><br>Pob un o'r sylwebyddion ac unrhyw un arall sydd wedi datgan diddordeb yn y broses CDLl<br><br>Y cyhoedd | Llythyr/ ebost i'r sylwebyddion a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn rhoi gwybod am fabwysadiad y CDLl, gan amgáu copi o'r datganiad mabwysiadu.<br><br>Rhoi holl ddogfennau'r CDLl yn cynnwys y datganiad mabwysiadu ar gael ar wefan y Cynghorau ac yn y mannau cyhoeddus perthnasol.<br><br>Cyhoeddi hysbyseb yn y papurau lleol. | Dim yn berthnasol | Costau postio<br><br>Costau argraffu<br><br>Costau gweinyddu |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Technegau priodol eraill i godi ymwybyddiaeth, a sicrhau dealltwriaeth (e.e. datganiadau i'r wasg)<br><br>Anfon 4 copi o'r CDLl a'r datganiad mabwysiadu i'r Llywodraeth Cymru. | | |

DRAFT

# Atodiad 4 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Rol gwahanol bwyllgorau yn y broses paratoi CDLl ar y Cyd**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DARPARU CYTUNDEB** | **DEWISIADAU STRATEGOL A'R STRATEGAETH DDEWISOL** | **CYNLLUN ADNAU** | **ADRODD AR YMATEBION YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN ADNAU** | **CYNLLUNIO AROLYGYDD ADRODDIAD** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN** |
| **Pwyllgorau Craffu Gwynedd a Môn** | **Craffu** | **Craffu** | **Craffu** | | | |
| **Bwrdd Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Môn** | **Argymell cytundeb** | **Cytuno** | | | | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** | **Cynghori** | **Cynghori** | **Cytuno** | **Cytuno** | **Derbyn** | |
| **Cynghorau Llawn Gwynedd a Môn** | **Cytuno** | | | | | **Mabwysiadu** |

DRAFT

# Atodiad 5 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Y Profion Cadernid**

**Profion Gweithdrefnol**

**G1** Mae'r cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau

**G2** Cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn perthynas â'r cynllun a'i bolisïau gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Profion Cysondeb**

**C1** Mae'n gynllun defnydd tir sydd wedi ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ardaloedd cyfagos.

**C2** Mae'n ystyried polisi cenedlaethol.

**C3** Mae wedi ystyried Cynllun Gofodol Cymru.

**C4** Mae wedi ystyried y Strategaeth Gymunedol / Strategaethau / Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol perthnasol.

**Profion Cydlyniaeth ac Effeithiolrwydd**

**CE1** Mae'r cynllun yn nodi strategaeth gydlynol y mae ei bolisïau a'i ddyraniadau yn deillio'n rhesymol ohono a, lle mae materion trawsffiniol yn berthnasol, mae'n cydweddu â'r cynlluniau datblygu a baratoir gan awdurdodau cyfagos.

**CE2** Mae'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau yn realistig ac yn briodol ac meant wedi ystyried y dewisiadau amgen perthnasol ac maent yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy.

**CE3** Ceir mecanweithiau clir ar gyfer gweithredu a Mônitro.

**CE4** Mae'n weddol hyblyg i'w alluogi i ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

DRAFT

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Risgiau posib a dulliau ymateb**

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 1. Gofynion pellach yn deillio o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol newydd | • Angen ymgymryd â rhagor o waith er mwyn diwygio'r Cynllun a'r rhaglen waith.<br>• Rhaglen yn llithro. | Monitro gwaith sy'n cael ei wneud o ran deddfwriaethau a chanllawiau newydd fel ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb mor gynnar ac effeithiol a phosib i unrhyw newid. |
| 2. Llwyth gwaith trymach na'r disgwyl | • Rhaglen yn llithro.<br>• Methu adrodd i bwyllgorau'r ddau Gyngor mewn da bryd | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau ein bod yn ystyried faint o amser a gymerir i wneud pob agwedd o'r gwaith.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 3. Gwrthwynebiadau sylweddol gan gyrff ymgynghori | Rhaglen yn llithro. | • Hyblygrwydd yn yr amserlen.<br>• Sicrhau ein bod yn ymgynghori yn fuan (cyn y cyfnodau ymgynghori ffurfiol) gyda chyrff penodol. |
| 4. Diffyg consensws gwleidyddol | • Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun.<br>• Gwrthdaro yn tanseilio'r hyn sydd yn cael ei nodi yn y Cynllun. | Ceisio datrys cymaint o wrthdaro a phosib yng nghyfarfodydd Panel y CDLl ar y Cyd a drwy drafod gydag Aelodau blaengar e.e. arweinyddion portffolio. |
| 5. Methu adrodd i bwyllgor ar adeg priodol | • Rhaglen yn llithro | • Trafod anghenion y broses gyda threfnwyr rhaglen blynyddol pwyllgorau'r ddau Gyngor mewn da bryd |

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 6. Diffyg consenswsrhwng gwahanol adrannau o'r Cynghorau | Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun. | • Sicrhau ein bod yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cynghorau (Strategaeth Gymunedol, Cynllun 3 mlynedd).<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau cyd-drafod mewnol effeithiol mewn lle o ran y Cynllun. |
| 7. Oedi gyda chyfieithu/proses argraffu | Rhaglen yn llithro. | • Defnyddio cyfieithwyr allanol.<br>• Rhannu'r gwaith cyfieithu i wahanol unigolion/ gwmnïoedd.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 8. Diffyg arian ar gael drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun | • Methu ariannu tasgau gwaith penodol a phwysig e.e. fel rhan o'r sail tystiolaeth.<br>• Rhaglen yn llithro. | Monitro cyson er mwyn sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posib. |
| 9. Newid/Colli staff | • Colli capasiti a sgiliau.<br>• Mwy o bwysau ar y swyddogion eraill.<br>• Rhaglen yn llithro. | Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 10. Diffyg arbenigedd | • Safon y gwaith yn is.<br>• Methu adnabod gwendidau a nodi awgrymiadau wrth wirio gwaith gan ymgynghorwyr.<br>• Problemau o ran sicrhau 'cadernid' y Cynllun. | Hyfforddi staff penodol i arbenigo mewn gwahanol feysydd. |

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 11. Yr Arolygaeth Gynllunio methu cwrdd â'r amserlen/targedau | Oedi o ran cynnal yr ymchwiliad ac/neu o ran derbyn yr adroddiad. | Sicrhau cyswllt agos gyda'r Arolygaeth Gynllunio er mwyn sicrhau proses mor hawdd â phosib. Bydd hyn hefyd yn fodd o gael rhybudd cynnar ynglŷn ag unrhyw broblemau. |
| 12. Cynllun yn methu y prawf 'cadernid' | Ni all y Cynllun gael ei fabwysiadu heb orfod ymgymryd â gwaith sylweddol pellach. | Sicrhau bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau, ynghyd â'r holl brofion cadernid penodol. |
| 13. Her gyfreithiol | • Diddymu'r CDLl (neu rannau ohono) a fabwysiadwyd.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | Sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau a.y.b. |
| 14. Etholiadau | • Rhaglen yn llithro.<br>• Aelodau newydd â barn wahanol ynglŷn â chynnwys y Cynllun – blaenoriaethau yn newid. | Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo. |
| 15. Problemau gyda gwaith T.G. / Problemau o ran gwaith GIS | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau bod Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r anghenion ac yn rhaglennu amser ar ein cyfer.<br>• Prynu meddalwedd bwrpasol. |

# Atodiad 6 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| 16. Canlyniadau'r AC/AAS yn amlinellu problem(au) annisgwyl. | • Llwyth gwaith ychwanegol.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 17. Cyrff ymgynghori'n methu rhoi sylwadau mor gyflym â'r disgwyl. | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod grwpiau penodol yn cael eu hymgynghori a hwy yn fuan o fewn unrhyw gam perthnasol yn y broses.<br>• Ceisio ymgynghori ar adegau o'r flwyddyn ble mae'r mwyafrif o bobl yn debygol o fod yn eu gwaith e.e. nid yn ystod mis Awst neu dros y Nadolig. |
| 18. Derbyn gwybodaeth hwyr arwyddocaol. | • Rhaglen yn llithro.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath. |
| 19. Anghenion yn gyslltiedig a phrosiect Wylfa B | • Rhaglen yn llithro.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | • Monitro cynnydd yn y prosiect yma<br>• Sicrhau cyswllt gwaith agos rhwng Tim Project Ynys Ynni a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd |

# Atodiad 7 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

Mae gan yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd fas data o unigolion a mudiadau sydd yn dymuno cymryd rhan yn y broses gan gynnwys busnesau lleol, grwpiau gwirfoddol, cyrff llywodraethol ac unigolion. Mae'r Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd yn cynnig cysylltu gyda mudiadau ambarél a fyddai yn eu tro yn cysylltu gyda'u haelodau hwy. Y rhain yw'r cyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol. Bydd y rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol a adnabyddir yn esblygu'n gyson yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Wedi cyhoeddi'r Gytundeb Cyflawni, gellir gweld fersiwn diweddaraf y rhestr hon ar wefan y Cynghorau www.gwynedd.gov.uk a www.anglesey.gov.uk

Os ydych yn awyddus i gael eich ychwanegu i fas data ymgynghori'r CDLl ar y Cyd, eisiau newid eich manylion neu gael eich tynnu oddi ar y rhestr, yna cysylltwch â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy polisicynllunio@gwynedd.gov.uk . Bydd pawb sydd ar y bas data yn cael eu hysbysu o'r cynnydd yn y gwaith a chyfleon ar gyfer cymryd rhan yn y broses drwy lythyr neu os yn bosib e-bost drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Cyrff ymgynghori cyffredinol**

**a) Cyrff Gwirfoddol ac eraill**

Age Concern (Cymru)
Barnados
Butterfly Conservation Wales
BTCV
Council for the Protection of Rural Wales
Cyfeillion y Ddaear(Mon & Gwynedd)
Communities First
Communities First - Maes Hyfryd
Communities First - Morlo
Communities First - Porth y Felin
Communities First - Amlwch
Communities First - Llangefni
Wales Council for Voluntary Action
Mantell Gwynedd
South Pwllheli Community First Partnership Area
Pen Llyn Community First Partnership Area
Marchog Community First Partnership Area
The People of Bangor Community Group
Bangor Needs Change
Abermaw Community First Partnership Area
Bowydd a Rhiw Community First Partnership Area
Talysarn Community First Partnership Area
Pobl Peblig Community First Partnership Area
Gwarchod Bermo

# Atodiad 7 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

Barmouth Resort Improvement Group
Undeb Myfyrwyr Bangor Students Union
Bangor Creadigol
Mudiad Ysgolion Meithrin
Penrhyn Heritage Railway Trust/ Felin Fawr Cyf.
Cyfeillion Amgueddfa ac Oriel Gwynedd
Fairbourne Rights of Access Group
Bangor Civic Society
Campaign for Dark Skies
Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref,
Cymdeithas Pysgota Cefni
Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru
Envirowatch UK
Friends of the Earth (Mon & Gwynedd)
Gwasanaeth Ieuenctid CSYM
Greenpeace
Keep Wales Tidy
Mudiad Ffermwyr Ifanc
Menai Bridge Heritage Trust
Menai Bridge & Distrcit Civic Society
North Wales Housing Association
National Trust
North Wales Wildlife Trust
North Wales Energy Efficiency Advice Centre
Penhesgyn Action Group
PAWB (People Against Wylfa B)
The Ramblers Association
RSPB
Red Wharf Bay Association
Sports Council for Wales
Sustrans
Tanc Meddwl Cymuned Mon
Tourism Partnership North Wales
Trearddur Residents Association
Wales Pre School Play Groups Assoc
Wales Tourist Board
Wildscape
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ynys Cybi Action Committee
Wales Pre School Play Groups Assoc
H.A.R.T (Residents Association)
C.O.B.T.R.A Centre of Bangor Tenants & Residents
Association
Bangor Pride Business Group
Upper Bangor Society

DRAFT

MATRA (Maesgeirchen and Tanybryn Residents Association)
North Wales Probation Service
Cylch Meithrin Penysarn
CAB Gwynedd a De Môn
Grwp Bae Hirael
Transition Town Bangor
Rail and bus user group
National Women's Alliance Wales
CTC Gwynedd & Môn

**Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol**

**b)** North Wales Race Equality Network
Gypsy Council
Digartref Ynys Mon
Equality and Human Rights Commission
BEN (Black Environment Network)
Traveller Law Reform Coalition
Intercultural Skills Link
Chinese Woman Society Wai Kwun
North Wales Chinese Society
South Pwllheli Ethnic Minority Project

**Cyrff sy'n cynrychioli grwpiau crefyddol amrywiol**

**c)** Bangor Cathedral
Bangor Islamic Centre
Diocese of Bangor
Wales Orthodox Mission
Bangor Mosque
CYTUN
Clebran
Fairbourne Rights of Access Group
Inter-Cultural Skills Network

**Cyrff sy'n cynrychioli budd unigolion anabl**

**d)** Alzheimer's Society
British Heart Foundation
North Wales Society for the Blind
Agoriad Cyf.
Bangor & District Mencap Society
Jas Chanay Disablement Welfare Rights
North Wales Deaf Association

DRAFT

Taran Disability Forum Ltd
RNIB Cymru
Crossroads Caring for Carers
ARC Cymru
Macular Degeneration Group
Disablement Welfare Rights
Fforwm Anableddau Taran Cyf
RNIB(Royal Nat. Inst. Blind)
TARAN Disability Forum Ltd
Y Gamfa (CCET)
CAIS – Asiantaeth Cyffuriau ac Alcohol
Anheddau Cyf.
Abbey Road Resource Centre
Disability Wales
Disability Rights Commission
Disabled Persons Transport Advisory Committee
Core Disability Group
Arfon Access Group
Dwyfor Access Group
Meirionnydd Access Group

**Cyrff sy'n cynrychioli budd busnesau**

**e)** Chamber of Trade
Chamber of Commerce
Federation of Small Business
Farmers Union of Wales
Menter Mon
National Farmers Union
National Farmers Union - Ynys Mon
Tywyn Chamber of Tourism & Commerce
Siambr Fasnach Pwllheli
Siambr Fasnach Tywyn
Siambr Fasnach Bermo
Siambr Fasnach Bangor
Chartered Institute of Building – North Wales Centre
HBF – Home Builders Federation

**Cyrff sy'n cynrychioli buddianau'r iaith Gymraeg/**

**f)** Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Fforum Iaith Mon
Menter Mon
Y Goriad (Papur Bro Bangor a'r Felinheli)
Merched y Wawr
Papurau Bro

DRAFT

Menter Iaith Dyffryn Ogwen
Pobl Ifanc Ardudwy
Gwynedd Gynaladwy
Cyngor Cefn Gwlad
Llaingoch Heritage Committee
Hunaiaith
Urdd Gobaith Cymru
Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc
Cyfeillion Llŷn
Cymdeithas yr Iaith

**g) Grwpiau sy'n cynrychioli pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol**

Stonewall

DRAFFT

# Atodiad 8 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

### Cyrff ymgynghori penodol

**Cyrff Llywodraeth**

Cadw
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ysgifennydd Gwladol Cludiant
Adran Fasnach a Diwydiant y DU
Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Asiantaeth Amgylchedd Cymru
Llywodraeth Cymru
Adran Drafnidiaeth o Lywodraeth y DU
Y Swyddfa Gartref

**Awdurdodau Lleol Cyfagos**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy
Cyngor Sir Powys

**Cynghorau Dinas/ Cymuned/ Tref ym Mon a Gwynedd (ar wahan i'r Barc Cenedlaethol Eryri)**

**Mon**

Cyngor Cymuned Aberffraw
Cyngor Tref Beaumaris
Cyngor Cymuned Bodffordd
Cyngor Cymuned Bryngwran
Cyngor Cymuned Cwm Cadnant
Cyngor Cymuned Trewalchmai
Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab
Cyngor Cymuned Llanddyfnan
Cyngor Cymuned Llanerchymedd
Cyngor Cymuned Llanfachraeth
Cyngor Cymuned Llanfaethlu
Cyngor Cymuned Llanfairpwll
Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll
Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Cymuned Llangristiolus
Cyngor Cymuned Llanidan
Cyngor Cymuned Moelfre
Cyngor Cymuned Pentraeth
Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Cymuned Rhosybol
Cyngor Cymuned Trearddur
Cyngor Cymuned Valley

Cyngor Tref Amlwch
Cyngor Cymuned Bodedern
Cyngor Cymuned Bodorgan
Cyngor Tref Caergybi
Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngor Cymuned Llanddona
Cyngor Cymuned Llaneilian
Cyngor Cymuned Llaneugrad
Cyngor Cymuned Llanfaelog
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf
Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog
Cyngor Cymuned Llangoed and Penmon
Cyngor Cymuned Mechell
Cyngor Cymuned Penmynydd and Star
Cyngor Cymuned Rhoscolyn
Cyngor Cymuned Rhosyr
Cyngor Cymuned Tref Alaw

**Gwynedd**

Cyngor Dinas Bangor
Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Cyngor Cymuned Betws Garmon
Cyngor Cymuned Llanberis
Cyngor Cymuned Llandwrog

Cyngor Tref Caernarfon
Cyngor Cymuned Bethesda
Cyngor Cymuned Bontnewydd
Cyngor Cymuned Community Council
Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

DRAFT

# Atodiad 8 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

Cyngor Cymuned Llanllechid
Cyngor Cymuned Llanrug
Cyngor Cymuned Pentir
Cyngor Cymuned Y Felinheli
Cyngor Cymuned Botwnnog
Cyngor Cymuned Clynnog
Cyngor Cymuned Dolbenmaen
Cyngor Cymuned Llanbedrog
Cyngor Cymuned Llannor
Cyngor Tref Nefyn
Cyngor Tref Porthmadog
Cyngor Cymuned Tudweiliog
Cyngor Cymuned Arthog
Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Cymuned Llanfrothen
Cyngor Cymuned Mawddwy
Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Cymuned Llanllyfni Council
Cyngor Cymuned Llanwnda
Cyngor Cymuned Waunfawr
Cyngor Cymuned Aberdaron
Cyngor Cymuned Buan
Cyngor Tref Criccieth
Cyngor Cymuned Llanaelhaearn
Cyngor Cymuned Llanengan
Cyngor Cymuned Llanystumdwy
Cyngor Cymuned Pistyll
Cyngor Tref Pwllheli
Cyngor Tref Abermaw
Cyngor Cymuned Corris
Cyngor Cymuned Llandderfel
Cyngor Cymuned Llangywer
Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

**Cynghorau Dinas/ Cymuned/ Tref sy'n ymylu ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd**

Cyngor Cymuned Abergwyngregyn
Cyngor Cymuned Aberdyfi
Cyngor Cymuned Brithdir,Llanfachreth, a Rhydymain
Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont Corris
Cyngor Cymuned Llanbedr
Cyngor Cymuned Llanelltyd
Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-Pennant
Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
Cyngor Cymuned Pennal
Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Cyngor Cymuned Bro Machno
Cyngor Cymuned Llangwm
Cyngor Cymuned Llandrillo
Cyngor Cymuned Cynwyd
Cyngor Cymuned Beddgelert
Cyngor Tref Bala
Cyngor Cymuned Bryncrug
Cyngor Tref Dolgellau
Cyngor Cymuned Ganllwyd
Cyngor Tref Harlech
Cyngor Cymuned Llanegryn
Cyngor Cymuned Llanfair
Cyngor Cymuned Llangelynnin
Cyngor Cymuned Llanycil
Cyngor Cymuned Maentwrog
Cyngor Cymuned Talsarnau
Cyngor Cymuned Dolwyddelan
Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cyngor Cymuned Llanfairfechan
Cyngor Cymuned Corwen
Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Darparwyr Isadeiledd a Chyfathrebwyr Electroneg**

Dwr Cymru
Scottish Power

British Telecommunications plc
SP Energy Networks & Wales and West Utilities

Grid Cenedlaethol
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mobile Operators Association

DRAFT

# Atodiad 9 - Cytundeb Cyflawni
# Cynllun Datblygu Lleol Môn a Gwynedd ar y Cyd

**Aelodaeth y Grwp Rhanddeiliaid Allweddol**

Mantell Gwynedd
Medrwn Mon
Un Llais Cymru
Llywodraeth Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Coleg Meirion Dwyfor
Coleg Menai
Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
Canolfan Waith Plus
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Prifysgol Bangor
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Heddlu Gogledd Cymru
Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gwynedd & Mon
Partneriaethau Iechyd Gofal a Lles Gwynedd & Mon
Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
Cymunedau'n Gyntaf Gwynedd & Mon
Partneriaeth Economaidd Gwynedd
Partneriaeth Adfywio Economaidd Mon
Unedau Polisi Strategol Gwynedd & Mon
Fforwm Amgylcheddol Gwynedd & Mon
Bwrdd Iechyd Lleol Ardal Gwynedd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyd-Bwyllgorau Cynghori ar AHNE Llyn & Mon
Swyddogion Adfywio Bro
Fforwm Mynediad Lleol

DRAFT

ATODIAD 2

**Cydymffurfiad y Cytundeb Cyflawni gyda Meini Prawf Asesu Llywodraeth Cymru**

**AMSERLEN**

**A yw'n hawdd i'r cyhoedd ei deall?**

Ydy, mae amseriad pob cam allweddol o'r broses CDLl ar y Cyd i'w weld yn glir yn nhabl 6 yn y CC. Mae amserlen fwy manwl a phendant i'w weld yn Atodiad 3.

**A gwmpesir prif elfennau'r CDLl?**

Do, gweler uchod

**A ymgorfforwyd effeithiau prosesau Awdurdodau Lleol i'w cymeradwyo (e.e. cylchredau Cabinet)?**

Do, fe gafodd yr amserlen ei lunio gan roi ystyried i amseriad sy'n wybyddus am Bwyllgorau Scriwtini'r Cynghorau, Pwyllgorau Bwrdd a chyfarfodydd y Cyngor llawn. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cael eu hamseru i hwyluso'r broses gwneud penderfyniadau.

**Sut y caiff y Pwyllgor Cynllunio ei gynnwys?**

Oherwydd y penderfyniad i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, cafodd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ei sefydlu i symleiddio/ resymoli'r broses gwneud penderfyniadau, i fonitro ac adolygu cynnydd yn y broses creu cynllun, ac i wneud penderfyniadau am gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, oni bai bod angen statudol am gymeradwyaeth y Cynghorau unigol. Mae adran 6.7 ac Atodiad 3 o'r CC yn dweud sut all pob Cynghorydd gael cyfle i drafod materion allweddol.

**A oes digon o amser ar gyfer cynnwys y gymuned ar y camau cywir?**

Ydy, mae'r amserlen sydd yn nhabl 6 ac yn Atodiad 3 yn rhoi amser digonol ar gyfer cydweithio a'r gymuned ar yr adegau priodol.

**A nodwyd tasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/ Arfarniad Amgylcheddol Strategol a'u cynnwys?**

Do. Mae'r cyfnodau allweddol yn y broses AC/ AAS wedi cael eu hadnabod a'u cynnwys yn Atodiad 3.

**A amcangyfrifwyd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob cam/tasg?**

Do, mae'r adnoddau a amcangyfrifwyd sydd eu hangen yn nhermau staff a chyllid i'w gweld yn rhannau 3.1 a 3.2 ac yn y golofn olaf sydd yn Atodiad 3 i'r CC

**A ystyriwyd effaith cylchredau polisi a strategaeth Awdurdodau Lleol eraill a'u potensial ar gyfer rhannu adnoddau?**

Do. Mae’r manylion ar gyfer defnyddio rhwydweithiau a phartneriaid presennol sy’n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau eraill yn y Cynghorau i’w gweld yn rhan 6.5 y CC.

**A yw’r Arolygiaeth Gynllunio yn ymwybodol o hyn/yn fodlon ar hyn?**

Mae cysylltiadau dechreuol gyda’r Arolygaeth Cynllunio wedi digwydd.

**A yw’r amserlen yn realistig ac yn gyflawnadwy ac a bennwyd cerrig milltir allweddol er mwyn cyflawni’r targed 4 blynedd?**

Mae’r amserlen yn realistig ac yn gyflawnadwy. Mae yna amserlen i’w weithio o’i fewn ar gyfer pob cam ac fe wnaiff diwedd pob cyfnod ar gyfer pob cam allweddol yn y broses CDLl weithredu fel carreg milltir i gyrraedd diwedd y daith. Awgrymir y gwnaiff hi gymryd rhyw 4.5 mlynedd i fabwysiadu’r CDLl ar y Cyd. Mae’r amserlen yma’n adlewyrchu’r angen i neilltuo amser i gynnal etholiadau lleol ym mis Mai 2012.

**Os nad ydyw, beth yw’r amgylchiadau esgusodol (e.e. etholiadau lleol)?**

Er yr ystyrir bod yr amserlen yn un realistig a chyraeddadwy mae yna risgiau posib. Yn ychwanegol i’r etholiadau lleol ym mis Mai 2012 mae’r risgiau eraill wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 6 i’r CC.

**Cynllun Cynnwys Cymunedau**

**A yw’n hawdd i’r cyhoedd, sefydliadau gwirfoddol a busnesau uniaethu â’r CCC?**

Ydy, mae pob un rhan allweddol a’r rhai sy’n mynd i gymryd rhan i’w gweld yn glir yn atodiad 3. Mae rhan 6.3 yn glir wrth adnabod y gynulleidfa a dargedir. Mae Atodiad 7 yn dangos pa grwpiau sydd ar gofrestr bresennol y ddau Gyngor ac mae’n rhoi cyfle i unrhyw un dynnu sylw at randdeiliaid eraill.

**A yw’n nodi’n glir ymagwedd a safonau cynnwys yr awdurdod a’r modd y mae’r rhain yn gysylltiedig ag ymagweddau ymgynghori lleol perthnasol eraill?**

Mae ymagwedd a safonau ar gyfer cydweithio’r Cynghorau i’w gweld yn rhan 6.2 o’r CC.

**A yw’r ymagwedd hon yn bodloni egwyddorion Llywodraeth y Cynulliad?**

Ydy, mae tabl 7 yn rhan 6.2 a rhan 6.11 yn dweud sut mae’r Cynghorau’n bwriadu cwrdd ag egwyddorion allweddol o ymglymiad cynnar ac adborth, annog ymrwymiad rhanddeiliaid i chwilio am gonsensws a mabwysiadu ymagwedd i gydweithio gyda phob rhan o’r gymuned.

**A yw’n cynnwys y cyfnodau ymgynghori statudol a’r sefydliadau sy’n ymgyngoreion?**

Ydy, mae'r cyfnodau ymgynghori statudol a'r sefydliadau ymgynghori wedi cael eu cynnwys yn y CCC lle mae'n briodol (gweler Atodiad 3, 7 & 8).

**Beth fu cyfranogiad y rhai yr effeithiwyd arnynt yn y gwaith o lunio'r CCC?**

Fe roddwyd gwybodaeth am ddrafft cyntaf y CC, gan gynnwys y CCC, ei roi i'r mudiadau sydd yn Atodiad 7 & 8 a phob rhanddeiliaid sydd ar gofrestr y Cynghorau o'r rhai sydd wedi dangos diddordeb. Fe roddwyd cyfle i'r rhain ac unrhyw un arall i gyflwyno sylwadau. Bydd crynodeb o'r ymateb a gafwyd yn cael ei gynnwys fel atodiad i'r CC terfynol.

**A yw'r CCC yn cynnwys grwpiau rhanddeiliaid perthnasol, o gofio natur ardal yr awdurdod?**

Ydy. Mae yna restr o'r grwpiau rhanddeiliaid gwybyddus yn atodiad 7 & 8. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r grwpiau a'r buddiannau priodol ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd. Nid yw'r ffaith fod grŵp wedi cael ei eithrio o'r gofrestr bresennol yn golygu nad ellir ychwanegu at y gofrestr yn y dyfodol.

**A yw'n glir ynghylch y math o gyfranogiad a gynigiwyd ar gyfer pob cam a thasg berthnasol, ac a yw'r technegau/prosesau hyn yn ymddangos yn briodol i'r dasg/cam?**

Ydy, Mae'r math o gyfranogiad yn ystod pob cam i'w weld yn glir yn Atodiad 3. Mae'r math o gyfranogiad a gyfeirir ato yn addas ar gyfer pob rhan a gyfeirir ato.

**A yw'r awdurdod yn dangos y gallu i ddarparu adnoddau ar gyfer y prosesau a'u rheoli?**

Ydy. Gweler cyfeiriad at yr amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd ei angen yn nhermau staff a chyllid yn adran 3.1 a 3.2 o'r CC. Mae Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus wedi cael ei lunio gan roi ystyriaeth i adnoddau, staff a chyllid, sydd ar gael yn y Cynghorau.

**A oes rolau clir ar gyfer Aelodau, y Weithrediaeth a swyddogion?**

Oes. Mae rôl Aelodau a swyddogion yn cael ei ddisgrifio'n adran 6.7 a 6.8 ac yn atodiad 3 y CC. Fe fydd Bwrdd y ddau Gyngor yn chwarae rhan uniongyrchol yn y broses gwneud penderfyniad yn ystod y cyfnod hyd at ac yn cynnwys y cyfnod cyd-adneuo. Bydd y Pwyllgor Polisi cynllunio ar y Cyd yn gwneud y penderfyniadau perthnasol yn ystod y cyfnod ar ôl y cyfnod cyd-adneuo.

**A oes dull o sefydlu croestoriad o safbwyntiau cynrychioliadol?**

Oes, bydd amrywiaeth o fudiadau a nodir yn Atodiad 7 & 8 yn rhan o'r broses. Yn ogystal â hynny, bwriedir sefydlu Grwp Rhanddeiliaid Allweddol ac fe fydd Panel Dinasyddion Gwynedd yn cael ei ddefnyddio fel 'grwpiau gwrando' (gweler rhan 6.5, Atodiad 3 ac Atodiad 9 o'r CC)

**A yw'n amlwg beth a ddisgwylir gan gyfranogion ar bob cam?**

Ydy, mae hyn yn glir yn adran 6.11 o’r Cytundeb Cyflawni.

**A yw’n dangos y modd y caiff canlyniad y broses o gynnwys y gymuned ym mhob cam/tasg ei gyfleu i gyfranogion a phartïon â diddordeb (dulliau o roi adborth)?**

Ydy, mae hyn i’w weld yn Atodiad 3.

**A yw’n glir sut y cofnodir y canlyniad fel pe bai’n dylanwadu ar y cynllun a’r Arfarniad o Gynaliadwyedd?**

Ydy, mae hyn yn glir yn Atodiad 3 o’r CC

**A yw’n nodi’r modd y bydd yr awdurdod yn monitro (ac yn newid) y CCC?**

Ydy, mae hwn i’w weld, gyda manylion y monitor a’r adolygiad o’r Cytundeb Cyflawni llawn, yn rhan 5.1

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT CYNLLUN CYFLAWNI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MON A GWYNEDD AR Y CYD

## 1) AWDUR YR ASESIAD

Nia H Davies, Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio Mon a Gwynedd

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

Grŵp Rhanddeiliad Allweddol y CDLl ar y Cyd a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr y partneriaethau lleol sy'n cynrychioli grwpiau targed cydraddoldeb (h.y. rhyw y person, anabledd, oedran, tras, cyfraddiadedd rhyw, a ffydd a chred); Panel Asesiad Effaith Cydraddoldeb, sef cynrychiolwyr y Fforymau Cydraddoldeb lleol a swyddogion cydraddoldeb Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon; Cyrff lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol; grwpiau crefyddol amrywiol; budd unigolion anabl (gweler Atodiad 7 y Cytundeb Cyflawni).

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

14eg Ebrill 2011 (sef diwrnod 1af yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Cytundeb Cyflawni)

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

17eg Mehefin 2011

## 5) PERTHNASEDD

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb. Efallai na fydd perthnasedd i bob un, ond os canfyddir perthnasedd, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

### 5a) Perthnasedd i'r Dyletswyddau Cyffredinol

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**

  Mae'r Cytundeb Cyflawni, trwy ei Gynllun Cyfranogiad Cyhoeddus, yn datgan bwriad y Cynghorau i gysylltu ac ymgynghori a'r cyhoedd, gan gynnwys y aelodau o'r gymuned sy'n anodd eu cyrraedd fel arfer a grwpiau a mudiadau sy'n cynrychioli'r buddiannau grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol; grwpiau crefyddol amrywiol; budd unigolion anabl.

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**

Bydd ymgynghori eang yn lleihau y risg o ddatblygu unrhyw drefniadau all gamwahaniaiethu

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

Trwy lynnu at gynnwys y Cytundeb Cyflawni fe ellir cyflwyno polisïau cynllunio defnydd tir newydd sy'n ymateb yn well i anghenion cymunedau lleol**.**

- **Meithrin perthnasau da**

Mae'r Cytundeb Cyflawni'n anelu i sicrhau bod cymunedau a budd-ddeiliaid yn cael pob cyfle i gymryd rhan a chyfranogi o'r cam cyntaf yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd.

**5b) Perthnasedd i wahanol elfennau cydraddoldeb**

Mae'r materion a'r tueddiadau a gyfeirir atynt yn Rhan 2.1 ac yn Atodiad 2 y Cytundeb Cyflawni yn anhebygol o effeithio ar bawb yn gyfartal. Mae'r potensial mae'n debyg i'r CDLl ar y Cyd effeithio ar y grwpiau cydraddoldeb isod i gyd. Er enghraifft, mae tystiolaeth i gael sy'n dweud fod grwpiau hil lleiafrifol, marched, unigolion anabl, plant a phobl ifanc a phobl hyn yn fwy tebygol o dioddef o dlodi ac eithrio cymdeithasol yn waeth na grwpiau eraill. Enghraifft arall o angydraddoldeb yn nhermau effaith yw tlodi tanwydd sydd i'w weld yn gyffredinol waeth mewn aelwydydd bregus, e.e. lle mae yn berson mewn oed, plentyn neu berson anabl yn byw. Fe allai strategaeth a pholisiau'r CDLl ar y Cyd gael ardrawiad andwyol neu wahaniaethu'n erbyn gwahanol grwpiau yn y gymuned neu wneud cyfraniad positif i gydraddoldeb. Bydd gweithio gyda cynrychiolwyr y grwpiau yn unol a'r hyn sydd yn y Cytundeb Cyflawni yn gymorth i adnabod y materion sy'n bwysig yn fuan yn y broses

- **Hil**
- **Rhyw** (yn cynnwys trawsrywiol, mamolaeth a beichiogrwydd)
- **Anabledd**
- **Yr iaith Gymraeg**
- **Cyfeiriadedd rhywiol**
- **Crefydd neu gred**
- **Oedran**

**6) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon yn gorfod paratoi CDLl. Bydd y CDLl ar Cyd yn canolbwyntio ar faterion defnydd tir sydd yn neilltuol bwysig i'r ardal leol. Bwriedir sicrhau y bydd strategaeth a pholisiau a chynigion y CDLl ar y Cyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion,

cyfleoedd a chyfyngiadau'r ardal. Pwrpas y Cytundeb Cyflawni yw darparu gwybodaeth am y broses a'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd yn ogystal a dweud gyda pwy fydd y Cynghorau'n cysylltu efo, sut a phryd gall y cyhoedd ac eraill gyfrannu i'r broses a chynnwys y CDLl ar y Cyd a beth fydd yn digwydd i'r ymatebion. Mae'r partneriaethau, y cyrff a'r mudiadau sy'n cynrychioli'r grwpiau cydraddoldeb wedi cael eu hadnabod yn y Cytundeb Cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'n glir y bydd y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yn destun AEC.

**7) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi ?

Fe ymgynghorwyd gydag unigolion sydd ar fasdata'r CDLl ar y Cyd a gyda'r 'Cyrff Ymgynghori Cyffredinol' a 'Chyrff Ymgynghori Penodol" – gweler Atodiadau 7 & 8 y Cytundeb Cyflawni am enwau'r cyrff yma.

Yn ol cynnwys y Cytundeb Cyflawni fe fydd yr uchod yn derbyn diweddariad am y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd ar adegau allweddol. Fe fydd cynrychiolwyr partneriaethau a mudiadau sy'n cynrychioli'r grwpiau cydraddoldeb yn derbyn gwahoddiad i gyfrannu ac i ddylanwadu ar gynnwys y CDLl ar y Cyd – gweler Atodiad 3 a 9 y Cytundeb Cyflawni.

**8) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

Mae rhan 2.1 ac atodiad 2 y Cytyndeb Cyflawni yn rhoi braslun o'r ardal ac yn cynnwys ffeithiau a ffigyrau strategol allweddol.

Mae yna berthynas agos rhwng yr AEC a'r Arfarniad Cynaladwyedd, sydd yn ymgorffori'r Arfarniad Amgylcheddol Strategol. Bydd yr Adroddiad Sgopio a fydd yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Cynaladwyedd yn rhoi gwybodaeth waelodlin a fydd yn gymorth i adnabod yr amcanion cynaladwyedd perthnasol. Bydd rhai o'r amcanion yma'n ymwneud a'r ceinciau ("strands") cydraddoldeb.

Mae'r Cynghorau yn y broses o ddatblygu Cynllunau Cydraddoldeb Strategol yn unol a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel rhan o'r broses yma, maent yn casglu tystiolaeth ar angenion cydraddoldeb y ddwy Sir er mwyn pennu Amcanion Cydraddoldeb. Gall yr wybodaeth yma gyfrannu yn ogystal at ddatblygiad y CDLl ar y Cyd.

**9) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a sut y caiff y rhain eu llenwi

Er mwyn gallu cynnal AEC o'r CDLl ar y Cyd bydd angen casglu'r wybodaeth waelodlin berthnasol sydd ar gael at ei gilydd yn ffurfiol.

**10) BETH YW'R EFFAITH WIRIONEDDOL NEU DEBYGOL**

**10 a) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb**

Gweler yr atebion i 5a, 5b a 6 uchod.

- **Hil**

Byddwn yn ymgynghori a grwpiau lleol sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig (gweler Atodiad 7)
Er mwyn sicrhau cyfranogiad, byddwn yn ystyried cynhyrchu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol ag unrhyw alw penodol

- **Rhyw**

Byddwn yn sicrhau mewnbwn gan ferched a dynion. Nid oes gennym ar hyn o bryd gysylltiadau penodol a grwpiau trawsrywiol, ond gobeithir datblygu cyswllt fel rhan o'r broses datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Statudol: Rhoi ystyriaeth i'r farn y grwp yma yn unol a'r datblygiadau.

- **Anabledd**

Byddwn yn ymgynghori a grwpiau lleol sy'n cynrychioli pobl anabl (gweler Atodiad 7)
Byddwn yn sicrhau bod ein cyswllt a phobl anabl yn hygyrch ac addas; yn hyn o beth, byddwn yn darparu deunyddiau a dulliau cyfathrebu ar fformatau amgen (e.e. BSL, tap awdio, fersiynnau hawdd-i'w-darllen ayb) yn unol a'r angen

- **Yr iaith Gymraeg**

Byddwn yn ymgynghori a grwpiau lleol sy'n cynrychioli diddordebau'r iaith Gymraeg (gweler Atodiad 7)
Bydd modd i unrhyw berson gyfrannu at y broses drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg

- **Cyfeiriadedd rhywiol**

Byddwn yn ymgynghori a grwpiau lleol sy'n cynrychioli pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol (gweler Atodiad 7)

- **Crefydd neu gred**

Byddwn yn ymgynghori a gwahanol grwpiau ffydd (gweler Atodiad 7), gan sicrhau nad yw ein trefniadau'n tynnu'n groes ag anghenion diwylliannol ac ysbrydol (e.e. parchu dyddiau a gwyliau sanctaidd)

- **Oed**

Byddwn yn ymgynghori a grwpiau lleol sy'n cynrychioli gwahanol oedrannau (gweler Atodiad 7)

**10b) O safbwynt y Dyletswyddau Cyffredinol**

Gweler yr atebion i 5a, 5b a 6 uchod.

O ddilyn y trefniadau a amlinellir yn y Cytundeb Cyflawni Drafft a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, teimlwn yn hyderus bydd y broses yn cydymffurfio a Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**
- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**
- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**
- **Meithrin perthnasau da**

**11) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**
(Gall fwy nag un canlyniad fod yn berthnasol i'r polisi)

**Canlyniad 1: Dim newid mawr**
Mae'r Asesiad yn dangos trwy weithredu yn unol a gofynion y Cytundeb Cyflawni fe fydd y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd yn un cynhwysol, h.y. na ddylid fod yna botensial am gamwahaniaethu o ran cael mewnbwn i'r broses. Achubwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a bydd hynny'n cynorthwyo i sicrhau y bydd y CDLl ar y Cyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion, cyfyngiadau a chyfleon yr ardal.

**12) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd bydd rhaid cyhoeddi dogfen a fydd yn dweud sut aethpwyd ati i weithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid eraill a beth oedd casgliadau'r trafodaethau yma. Bydd angen cadw golwg ar pwy fydd yn rhoi mewnbwn er mwyn ceisio sicrhau bod y grwpiau cydraddoldeb yn manteisio ar y cyfleon a fydd ar gael i ddylanwadu ar y CDLl ar y Cyd.

**13) CYNLLUN GWEITHREDU**

| Camau gweithredol | Cyfrifoldeb | Amserlen | Adolygu a gwerthuso |
|---|---|---|---|
| Trafod ymhellach gyda'r Uned Cyfeiriad Strategol (Cyngor Gwynedd) a'r Uned Polisi Strategol | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 2011 | Cytundeb ar y teclyn AEC i'w gymhwyso i'r CDLl ar y Cyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (Cyngor Sir Ynys Mon) ynglyn a sut ellir addasu'r teclyn AEC corfforaethol (os oes angen gwneud hynny)/ cymhwyso'r teclyn AEC i'r camau allweddol o baratoi'r CDLl ar y Cyd, e.e. adnabod opsiynau twf a dosbarthiad, creu polisiau strategol | | | |
| Sefydlu'r Panel AEC i gynorthwyo'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i wneud AEC o'r CDLl ar y Cyd ar adegau allweddol. | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 2011 | Y Panel yn cwrdd ar adegau perthnasol rhwng 2011 a 2014/5 |

**14) PENDERFYNU**

| |
|---|
| |